Gweinyddiaeth
Cyfiawnder

# Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

Mehefin 2013

# Trawsnewid y System Cyfiawnder Troseddol

## Strategaeth a Chynllun Gweithredu i Ddiwygio'r System Cyfiawnder Troseddol

Cyflwynwyd i'r Senedd
gan yr Arglwydd Ganghellor a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder
ar Orchymyn Ei Mawrhydi

Mehefin 2013

Cm 8658 £10.75

**© Hawlfraint y Goron 2013**

Gallwch ail-ddefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. I weld y drwydded hon, ewch i http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/ neu e-bostiwch: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle'r ydym wedi nodi deunydd gyda hawlfraint gan drydydd parti, bydd angen ichi ofyn am ganiatâd gan y sawl sy'n dal yr hawlfraint honno.

Dylid anfon unrhyw ymholiad ynghylch y cyhoeddiad hwn atom yn transformingthecjs@justice.gsi.gov.uk

Gallwch lawrlwytho'r cyhoeddiad hwn o www.justice.gov.uk

ISBN: 9780101865821

Argraffwyd yn y DU gan The Stationery Office Limited ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi
ID 2567844 06/13

Argraffwyd ar bapur yn cynnwys 75% o ffibr wedi'i ailgylchu o leiaf.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 3 |
| Strategaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol | 4 |
| CJS ddigidol | 11 |
| CJS sy’n gynt ac yn iawn y tro cyntaf | 14 |
| CJS dryloyw ac ymatebol | 22 |
| Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion | 24 |
| Ymateb yn iawn i droseddu | 27 |
| Gweithio mewn partneriaeth | 34 |
| Atodiad: Crynodeb o’r camau gweithredu | 37 |

## Rhagair



Fel y Gweinidog Plismona a Chyfiawnder Troseddol, rwyf yn gweithio ar draws dwy adran o'r Llywodraeth ac yn dod i gysylltiad yn rheolaidd ag ystod o broffesiynau medrus ac ymroddgar iawn gan gynnwys yr heddlu, ynadon, cyfreithwyr, bargyfreithwyr, barnwyr, Gwasanaeth Erlyn y Goron, staff prawf a llys, swyddogion carchardai a'r holl ddarparwyr sector gwirfoddol a phreifat sy'n gweithio o fewn y system cyfiawnder troseddol (CJS).

Mae hyn yn brofiad sy'n golygu y gwn heb os beth sydd angen ei wneud. Mae'n anochel bod y CJS yn gymhleth a'i bod yn hanfodol i reol cyfraith bod rhai elfennau o'r system yn annibynnol oddi ar eraill. Fodd bynnag, wrth i mi gwrdd â phobl o wahanol rannau o'r system rwyf yn cael fy nharo'n barhaus gan yr enghreifftiau diddiwedd o sut y gall un rhan achosi problemau i ran arall. Mae'r problemau hyn yn creu problemau gwirioneddol o ran sut mae'r CJS yn perfformio, fel faint o amser y mae'n ei gymryd hyd yn oed i achosion syml fynd drwy'r system, a'r profiad cwbl annerbyniol a gaiff ddioddefwyr yn aml eu bod yn cyrraedd y llys dim ond i gael gwybod na fydd eu hachos yn cael ei gynnal y diwrnod hwnnw.

Mae'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu hwn yn seiliedig ar y gred syml y dylai pob rhan o'r CJS fod yn gweithio i gyflawni'r un gyfres o ganlyniadau. Yn ogystal ag egluro beth yw'r canlyniadau hyn, mae'n cynnwys nifer o gamau penodol i bob rhan o'r CJS. Nid yw'r rhan fwyaf yn newidiadau sylfaenol i sut mae'r CJS yn gweithio. Camau rheoli cymharol rwydd yw'r rhan fwyaf a ddyfeisiwyd i ddileu'r methiannau a'r camgymeriadau syml sy'n llyffetheirio'r system gan arwain at oedi, gwaith diangen a phrofiad gwael i ddioddefwyr a thystion. Ni ymddiheuraf am hyn. Am rhy hir, bu'r ffocws ar gyflwyno rhaglenni sy'n swnio'n dda ond nad ydynt yn ateb y problemau cwbl sylfaenol o ran perfformiad.

Mae'r cynllun gweithredu hwn hefyd yn nodi sut fyddwn yn adeiladu ar yr arloesi mwy radical a welsom yn y blynyddoedd diwethaf. Yn ganolog i hyn mae ymrwymiad i gwblhau'r broses o ddigideiddio'r CJS. Wrth roi'r dechnoleg iawn ar waith yn y lle iawn, y gobaith yw y gallwn drawsnewid cyfiawnder troseddol o fod yn system ddarniog, seiliedig ar bapur i fod yn wasanaeth digidol sy'n darparu profiad effeithlon i'r cwsmer ac sy'n cwrdd â'r safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gan wasanaeth cyhoeddus modern.

Nid wyf wedi datblygu'r cynllun gweithredu hwn fy hun. Rwyf wedi sefydlu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol sy'n cynnwys uwch-gynrychiolwyr ar draws y CJS a fu'n rhoi cyngor a chymorth ar greu'r cynllun gweithredu hwn, ac sydd wedi cyd-ymrwymo i'w gyflawni. Yn ehangach, bydd dyheadau'r cynllun gweithredu hwn yn bwydo mewn i'r Grŵp Cenedlaethol a sefydlais i fynd i'r afael â Thrais Rhywiol Yn Erbyn Plant a Phobl Agored i Niwed. Rwyf hefyd wedi trafod pa ddiwygiadau sydd eu hangen ag ystod eang o bobl gan gynnwys dau gyfarfod adeiladol gyda chynrychiolwyr o'r gymuned amddiffyn. Rwyf yn ddiolchgar iawn am eu mewnbwn ac yn ffyddiog y caiff y cynllun gweithredu hwn, gyda'u cymorth a'u hymrwymiad parhaus, yn cael ei gyflawni'n llawn ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bawb sy'n dod i gysylltiad â'r CJS.



**Damian Green**
**Y Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol**

# Strategaeth ar gyfer cyfiawnder troseddol

## Pam fod rhaid trawsnewid cyfiawnder troseddol

Mae llawer y gallwn ymfalchïo ynddo yn ein system cyfiawnder troseddol (CJS). Mae'n cael ei hedmygu a'i hefelychu ledled y byd. Mae ei gweithlu'n ymroddedig a hynod fedrus a gwnaeth gyfraniad sylweddol at raglen lleihau diffyg y Llywodraeth drwy ddatblygu ffyrdd newydd a mwy effeithlon o weithredu, gan sicrhau 5% yn llai o droseddu ar yr un pryd yn y flwyddyn ddiwethaf yn unig.[1]

Ond mae hefyd rhai agweddau ar y CJS na allwn ymfalchïo gymaint ynddynt. Mae'n parhau i fod yn feichus, mae gormod o weithdrefnau cymhleth ac arferion gweithio hen-ffasiwn, mae ei defnydd o dechnoleg yn llusgo ar ôl gwasanaethau cyhoeddus eraill, ac fe'i nodweddir o hyd gan oedi annerbyniol, cymhlethdod sy'n arwain at ansicrwydd ynghylch atebolrwydd ac amser ac ymdrech ddiangen a diddiwedd yn cael ei dreulio ar achosion syml. Roedd adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) *Stop the Drift* wedi nodi 70 o drafferthion mewn achos bwrglera domestig cyffredin lle'r oedd yn anodd symud ymlaen oherwydd bod asiantaeth neu ymarferydd yn gofyn am wybodaeth gan un arall ac o leiaf saith achlysur pan oedd rhaid trosglwyddo data.[2]

I ddioddefwyr a thystion, er bod y sefyllfa wedi gwella ychydig yn y blynyddoedd diwethaf, gall y CJS fod yn ddyrys a rhwystredig, a'u profiad yn rhy aml yn syrthio'n brin o'r safonau y byddent yn disgwyl i wasanaeth cyhoeddus modern eu darparu.

Mae'r Llywodraeth yma'n ymrwymedig i drawsnewid cyfiawnder troseddol yn wasanaeth cyhoeddus modern sy'n ymateb yn ddi-oed a phendant i droseddu, sy'n trin dioddefwyr a thystion gyda'r gofal a'r ystyriaeth y maent yn ei haeddu, ac sy'n rhoi gwerth am arian llawer gwell i'r trethdalwr.

## Beth ydyn ni wedi'i gyflawni'n barod

Y llynedd gwnaethom gyhoeddi dwy ddogfen bwysig yn nodi ein cynlluniau i ddiwygio'r CJS. *Swift and Sure Justice*,[3] a *Getting it right for victims and witnesses*.[4] Ers hynny rydym wedi gweld cynnydd sylweddol:

- rydym wedi diwygio'r tirlun plismona, gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu newydd eu hethol bellach yn eu lle ac yn gyrru newidiadau'n lleol, yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, a'r Coleg Plismona fel corff proffesiynol newydd i godi safonau plismona, torri lawr ar droseddu ac amddiffyn y cyhoedd;
- mae'r CJS erbyn hyn yn gweithio'n ddigidol mewn sawl maes pwysig - mae'r rhan fwyaf o heddluoedd bellach yn trosglwyddo dros 90% o'u ffeiliau achos yn electronig i

---

1 *Crimes in England and Wales, year ending December 2012*, Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ebrill 2013

2 *Stop the Drift*, HMIC, Tachwedd 2010. *Stop the Drift 2 - A Continuing Focus on 21st Century Criminal Justice,* cyd-adolygiad gan HMIC a HMCPSI, cyhoeddwyd ar 4 Mehefin 2013

3 *Swift and Sure Justice: The Government's Plans for Reform of the Criminal Justice System*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012

4 *Getting it right for victims and witnesses* CP3/2012, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Ionawr 2012 a *Getting it right for victims and witnesses: the Government response,* Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012

Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) ac mae pob llys ynadon yn gallu derbyn ffeiliau digidol gan y CPS;

- rydym wedi penodi Comisiynydd Dioddefwyr newydd i roi llais wrth galon llywodraeth i ddioddefwyr, ac wedi ymgynghori ar Gôd Dioddefwyr diwygiedig;
- rydym yn profi modelau cyfiawnder newydd gan gynnwys CJS Hyblyg, i sicrhau bod y CJS yn ymateb yn well i anghenion ein cymunedau, a Phaneli Cyfiawnder Cymdogaeth lle mae'r drwgweithredwr, y dioddefwr a'r gymuned ehangach yn dod at ei gilydd i sicrhau bod y drwgweithredwr yn gwneud iawn;
- mae'r Cynllun Ple Euog Cynnar yn Llys y Goron a'r cynllun Atal Oedi Mewn Cyfiawnder yn y llysoedd ynadon wedi eu datblygu a'u cyflwyno gan y farnwriaeth, gan roi ffordd newydd a gwell o reoli achosion.  Mater i bob asiantaeth bellach yw gweithio i wneud i'r cynlluniau lwyddo;
- rydym wedi cynyddu rôl yr heddlu gydag erlyn troseddau penodol.  Yn Awst 2012 sefydlwyd naw ardal 'fraenaru' i gynhyrchu a phrofi'r model ymarfer gorau ar gyfer erlyniadau gan yr heddlu, ac sydd wrthi'n cael ei werthuso; a
- rydym wedi cyflwyno cynlluniau radical i drawsnewid y broses o ailsefydlu troseddwyr.

## Ein Strategaeth & Cynllun Gweithredu

Bydd y cynllun gweithredu hwn yn adeiladu ar y diwygiadau hyn. Wrth ei galon mae cyfres o gyd-ganlyniadau y dylai pob rhan o'r CJS fod yn gweithio i'w cyflawni.  O reidrwydd mae'r CJS yn cynnwys sawl rhan, pob un yn cyflawni gwahanol rolau gyda chyfrifoldebau cwbl ar wahân.  Mae'n hanfodol cadw'r plismona, yr erlyniad, y llysoedd, yr amddiffyniad a'r farnwriaeth yn annibynnol i sicrhau bod y system yn aros yn gyfiawn.  Ond dros amser, mae'r ffordd yr ydym wedi rheoli'r swyddogaethau gwahanol hyn wedi achosi trafferthion diangen sy'n amrywio o systemau TG anghydnaws i amcanion a mesurau perfformiad sy'n cystadlu â'i gilydd.

Nid yw hyn i ddweud nad yw'r amrywiol rannau'n gweithio gyda'i gilydd.  I weithio'n effeithiol, mae'r system yn dibynnu ar gydweithrediad pawb sy'n gweithio oddi mewn iddi a hefyd rhwng dioddefwyr, tystion, yr heddlu, yr erlyniad, cyfreithwyr yr amddiffyniad ac arbenigwyr eraill.  Ond mae hyn yn digwydd er gwaethaf ac nid oherwydd y ffordd y rheolir y CJS ac nid yw mor effeithlon nac ychwaith mor effeithiol ag y dylai fod.

Mae angen cyd-uchelgais ar gyfer y CJS sy'n cyfleu'n groyw beth ydym yn gweithio tuag ato a sut mae pob rhan yn cyfrannu at ei gyflawni.  Fel cam cyntaf, rydym wedi bod yn gweithio gydag ymarferwyr ar draws y system i ddatblygu cyfres o ganlyniadau y gall pawb yn y CJS rannu ynddynt. Y rhain yw:

- lleihau troseddu;
- lleihau aildroseddu;
- cosbi troseddwyr;
- amddiffyn y cyhoedd;
- gwneud iawn â dioddefwyr;
- cynyddu hyder y cyhoedd, gan gynnwys ymhlith dioddefwyr a thystion; a
- sicrhau bod y system yn deg a chyfiawn.

Bydd cyflawni'r uchelgais yma'n dibynnu ar nifer o flaenoriaethau allweddol i'r CJS, fel hyrwyddo ailsefydlu a sicrhau mynediad at gyfiawnder.

**Sicrhau mynediad at gyfiawnder** Ymfalchïwn fel y dylem yn y ffaith bod ein system cyfiawnder troseddol yn gwarantu mynediad at gyfiawnder. Mae diffynwyr a dioddefwyr fel ei gilydd yn gwybod y gwrandewir eu hachos gan farnwriaeth sy'n ennyn cenfigen y byd. Rydym wedi sicrhau y cedwir yr hawl i dreial drwy reithgor fel bod gan y rhai a gyhuddir o droseddau difrifol hawl i gael eu profi gan eu cyd-ddyn. Mae ein cynigion ar gyfer cymorth cyfreithiol yn cadw mynediad at gyngor cyfreithiol wedi'i ariannu gan y cyhoedd i rai sydd ei angen fwyaf arnynt. Rydym yn cydnabod y byddai system cymorth cyfreithiol fwy effeithlon ac effeithiol yn helpu i sicrhau bod y system gyfiawnder ehangach yn gweithio'n well. Rydym yn agor y system gyfiawnder i'r cyhoedd fel bod ganddynt fynediad gwell a haws at wybodaeth am sut mae'r CJS yn gweithio. Rydym hefyd yn rhoi mwy o warchodaeth i ddioddefwyr a thystion drwy'r broses cyfiawnder troseddol, a llais uwch i sicrhau y clywir eu hochr nhw o bethau.

Yn angori'r canlyniadau hyn mae'r weledigaeth ar gyfer sut ydym am i'r CJS gweithio yn y dyfodol.

**CJS ddigidol:** gartref, mae pawb sy'n gweithio i'r CJS yn mwynhau manteision technoleg fodern. Ond yn y gwaith, gall deimlo fel oes wahanol, gyda thechnoleg feichus ac anghyson yn aml y mae'n rhaid i'r staff fynd i drafferth fawr i weithio o'i chwmpas. Mae gwelliannau mawr wedi bod. Er enghraifft, gall yr heddlu drosglwyddo gwybodaeth achos i'r CPS yn ddigidol erbyn hyn, a gall yr heddlu a charcharorion gysylltu i'r llys drwy fideo. Ond camau bach yw'r rhain ac mae angen gwneud mwy eto, drwy greu CJS:

- lle mae gan yr heddlu ddyfeisiau symudol gyda mynediad at wybodaeth amser go iawn sy'n berthnasol i'w rôl, lleoliad a thasgau lleol, a dechrau creu ffeiliau achos o'r stryd;
- lle ceir ffeil ddigidol syml, hawdd i'w defnyddio ar gyfer troseddau o wahanol fathau, gan sicrhau y defnyddir y ffeil symlach hon gan bawb yn y CJS i baratoi achosion, gan helpu i leihau'r ychwanegiadau diangen a'r bylchau mewn gwybodaeth sy'n plagio'r dull presennol, a dileu'r mynyddoedd o bapur diangen sy'n nodweddu'r system yn rhy aml;
- lle gellir cyflwyno tystiolaeth yn ddigidol yn y llys, gan leihau'n ddramatig y miliynau o ddarnau o bapur sy'n hedfan o gwmpas y lle;
- lle mae'r opsiwn diofyn yw bod yr heddlu a thystion yn rhoi tystiolaeth drwy fideo fel nad oes raid iddynt deithio na sefyllian o gwmpas y llys; a
- lle mae'r cyhoedd yn cysylltu â'r CJS ac yn rheoli eu gwasanaethau ar-lein fel y mae'r rhan fwyaf o bobl yn ei wneud gyda phob agwedd arall ar eu bywydau.

**CJS sy'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf:** ar hyn o bryd gall hyd yn oed yr achosion symlaf gymryd chwe mis o'r drosedd i'r canlyniad cyfiawnder.[5] Un o'r rhesymau y gellir ei esgusodi leiaf am yr oedi yma yw'r camgymeriadau sy'n andwyo'r system gan arwain at ail-weithio a gohirio diddiwedd. Rydym hefyd wedi gwneud cyfiawnder diannod yn rhy gymhleth a biwrocratig, fel bo'r heddlu ac ynadon - un o gonglfeini cyfiawnder troseddol - yn teimlo weithiau bod eu dwylo wedi eu rhwymo ac nad yw eu cyfraniad yn cyfrif. Byddwn yn darparu system gynt a llai anghyson:

- lle bydd achosion yn cael eu cynnal ar ddiwrnod eu rhestru;
- lle mae'r CJS yn hyblyg ac yn ymateb i bryderon lleol;
- lle nodir pledion euog yn fuan fel y gellir delio â nhw yn y gwrandawiad cyntaf;

---

[5] Ar gyfartaledd, cymrodd achosion moduro diannod 183 diwrnod yn Chwarter 1 2013. *Court Statistics Quarterly January to March 2013*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2013

- lle byddwn yn canolbwyntio ein hadnoddau prin ar yr achosion sydd fwyaf eu hangen - gan ddelio'n fwy cymesur ag achosion diannod syml;
- lle mae treialon yn fyrrach ac yn cael eu rheoli'n effeithiol, gyda phob rhan o'r system yn glir ynghylch beth y disgwylir iddynt ei wneud; a
- lle nad oes diwylliant o ohirio, a lle mae'r heddlu, yr erlyniad a'r amddiffyniad yn barod i symud ymlaen ar y diwrnod.

**CJS dryloyw ac ymatebol:** mae angen CJS hyderus, flaengar arnom sy'n croesawu ac yn ymateb yn gadarnhaol i graffu cyhoeddus. Gwnaethom gynnydd ar hyn eisoes ac erbyn hyn cyhoeddwn lawer mwy o wybodaeth. Ond mae'r CJS yn anodd ei deall a'i thramwyo o hyd, nid oes ganddi ddull dibynadwy o dderbyn ac ymateb i adborth ac mae'n teimlo'n anghysbell i'r cyhoedd. Rydym am roi gwybodaeth i'r cyhoedd i'w helpu i ddeall sut mae eu system leol yn perfformio, a ffyrdd clir o ymgysylltu. Ac rydym am i bobl wybod fod cyfiawnder yn cael ei gyflawni, a'i gwneud yn hawdd iddynt gael gafael ar wybodaeth am ganlyniadau cyfiawnder a thrwy ddarlledu rhai achosion llys. Bydd hyn yn golygu:

- mai'r cyhoedd sy'n penderfynu ar flaenoriaethau lleol wedi eu goleuo gan ddata hawdd cael gafael arno am y CJS yn eu hardal nhw;
- bod cwynion ac adborth yn derbyn ymateb cyflym ac agored, gyda diwylliant gwasanaeth cwsmeriaid sy'n sicrhau ein bod yn dysgu ohonynt; a
- bod cyfiawnder yn cael ei weld i fod yn cael ei gyflawni drwy gyhoeddi gwybodaeth am ganlyniadau cyfiawnder, a darlledu o'r llys.

**Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion:** Mae darparu'r cymorth iawn i ddioddefwyr a thystion wedi bod yn uchelgais gan y CJS ers tro. Ond mae angen i ni wneud y system yn fwy ymatebol a haws i'w thramwyo os ydym am roi dioddefwyr yn gyntaf a sicrhau y medrant a'u bod yn ymgysylltu â'r CJS. Byddwn yn creu enw da i system cyfiawnder troseddol sy'n adnabyddus am ragoriaeth wrth drin ei chwsmeriaid:

- lle gall tystion a dioddefwyr ddisgwyl i'w cyswllt gyda'r CJS gael ei reoli'n dda;
- lle nad yw gwybodaeth am gynnydd achos yn dibynnu ar swyddogion achos yn dweud wrth ddioddefwyr, ond yn hytrach ei bod ar gael yn hwylus ar-lein;
- lle mae dioddefwyr yn derbyn iawn ystyrlon os oes ei angen arnynt;
- lle mae'r profiad o roi tystiolaeth yn haws drwy warchod pobl yn well, fel drwy ddefnyddio fideo i roi tystiolaeth a chymorth gan y gwasanaeth tystion, a lle ystyriwn yn fwy beth sy'n gyfleus i dystion; a
- os bydd pethau'n mynd o'i le, neu lle mae dioddefwyr yn anghytuno â'r cyhuddiad, bod ganddynt hawl i gael adolygiad o'r achos a derbyn eglurhad a chamau unioni amserol.

**Ymateb yn iawn i droseddu:** holl bwrpas y CJS yw lleihau troseddu. Mae dal a chosbi troseddwyr yn atal troseddu ac yn rhoi cyfiawnder i ddioddefwyr. Ar hyn o bryd mae amryw byd o droseddau lle nad yw ymateb y CJS yn ddigon da o gwbl. Er enghraifft, mae'r heddlu'n delio'n anffurfiol gyda rhai troseddau a allai gael effaith ddifrifol ar ddioddefwyr (tra bod achosion eraill, ar y llaw arall, yn dal i ddod i'r llys yn ddiangen), ac mewn achosion eraill mae'r siawns y bydd y troseddwr yn cael ei gosbi'n llwyddiannus gan y llys yn rhy fach o lawer. Ar yr un pryd, rhaid i ymateb y CJS fod yn deg a chyfiawn a rhaid i ni weithio i ddileu unrhyw wahaniaethu o ran sut y caiff pobl eu trin. Mae hyn yn golygu CJS:

- lle defnyddir atebion tu-allan-i'r-llys yn gyson a phriodol, a lle mae'r rhai a gyhuddir o droseddau difrifol yn gwybod y byddant yn mynd i'r llys;
- lle mae troseddwyr yn cael eu dal a'u cosbi a lle mae'r CJS yn rym ataliol pwerus; a

- lle caiff pawb eu trin yn deg beth bynnag yw eu nodweddion personol neu gefndir cymdeithasol.

**Gweithio mewn partneriaeth** ni allwn barhau gyda sefyllfa lle mae un rhan o system yn gweithredu'n gyson mewn ffordd sy'n achosi problemau i ran arall. Ychwaith ni allwn barhau i gaffael systemau TG anghydnaws neu i wneud penderfyniadau ar leoliad ystadau heb feddwl am yr effaith y mae'n ei gael ar dirlun cyffredinol y CJS. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cyflwyno mesurau i ateb hyn, gan gynnwys:

- y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, fydd yn darparu arweinyddiaeth genedlaethol glir ar draws holl ddiwygiadau'r CJS; a
- partneriaethau lleol pwerus i gyd-gynllunio sut i ymateb yn effeithiol i sialensau a blaenoriaethau lleol ac i gyflawni'r cyd-ganlyniadau ar gyfer y CJS.

| |
|---|
| Mae'r cynllun gweithredu hwn yn cefnogi a chyd-fynd â'r achos dros ddiwygio cymorth cyfreithiol fel yr eglurir gan y Llywodraeth yn y papur ymgynghori *Transforming legal aid: Delivering a more credible and efficient system* yn Ebrill 2013.[6] Roedd hwn yn cynnwys cynigion i wneud darparwyr yn fwy effeithlon ac yn edrych ar ddiwygiadau i sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn gynt ac, ar yr un pryd, bod cymorth cyfreithiol ar gael i'r rhai sydd fwyaf ei angen arnynt. Bydd ein diwygiadau i fynd i'r afael ag oedi a gwastraff, ar sail cyngor gan y proffesiwn cyfreithiol, yn sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn gynt, gan leihau faint o amser y mae'n rhaid i gyfreithwyr amddiffyn a bargyfreithwyr ei dreulio ar bob achos a darparu gwasanaethau'n fwy cost-effeithiol. |

## Sicrhau ein bod yn cyflawni

Yn rhy aml yn y gorffennol, nid yw diwygiadau wedi arwain at welliant cynaliadwy. Ambell waith, cawsant eu gollwng neu collwyd momentwm pan symudodd y sbotolau at rywbeth arall, a thro arall ychwanegwyd rhaglen newydd atynt gan achosi dryswch ynghylch beth oedd angen ei ddarparu.

Rydym yn benderfynol o newid y patrwm hwn. Bydd digideiddio a symleiddio'r ffordd y mae'r CJS yn gweithio yn lleihau faint o bapur a ddefnyddir yn aruthrol ac yn arbed llawer iawn o amser yr heddlu, yr erlyniad, y llys a'r amddiffyniad. Bydd mwy o achosion yn cael eu cynnal ar y diwrnod yr oeddent i fod i gael eu cynnal a bydd mwy o gymorth a gwarchodaeth i ddioddefwyr a thystion.

Rydym wedi sefydlu Bwrdd Cyfiawnder Troseddol newydd i roi arweinyddiaeth ar draws y CJS. Mae'r Bwrdd yn dod ag arweinwyr gweithredol ar draws y CJS at ei gilydd, gan gynnwys cynrychiolwyr Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, y Coleg Plismona, y Comisiynydd Dioddefwyr ac o blith arweinwyr asiantaethau ac adrannau'r CJS. Mae'r Uwch Farnwr Llywyddol hefyd yn mynychu fel sylwedydd a chyswllt i'r Cyngor Cyfiawnder Troseddol sydd yn ei dro'n rhoi cyngor i'r Bwrdd. Mae'r Bwrdd wedi goruchwylio datblygiad y cynllun gweithredu hwn ac yn gyfrifol am ei gyflawni. Mae aelodau unigol o'r Bwrdd yn berchen ar bob cam gweithredu yn y cynllun, ac yn gyfrifol am sicrhau y darperir hwynt ar amser.

Cyflawnir camau gweithredu'r cynllun dros y ddwy flynedd nesaf yn bennaf. Mae'r cynllun yn cynnwys nifer o wahanol gamau gweithredu i gyflawni ein gweledigaeth. Crynhoir y rhai pwysicaf isod.

---

[6] *Transforming legalaid: Delivering a more credible and efficient system, Ministry of Justice, April 2013*

**CJS ddigidol:**

- profi ffeil achos ddigidol symlach ar gyfer achosion traffig a siopladrad erbyn Ebrill 2014;
- sefydlu ffeiliau achos digidol ar gyfer troseddau eraill a'i chyflwyno i bob ardal erbyn Ebrill 2015;
- cwblhau'r achos busnes ar gyfer llysoedd digidol, erbyn diwedd 2013;
- gorffen dibynnu ar bapur erbyn 2015/16; a
- cwblhau'r achos busnes ar gyfer y llwyfan cyffredin erbyn diwedd 2013 a dechrau darparu'n fuan yn 2014.

**CJS sy'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf:**

- gwella ansawdd y gwaith o baratoi ffeiliau achos erbyn Ebrill 2014;
- sefydlu un llys traffig ym mhob ardal heddlu (ac edrych i weld a ellir canoli llysoedd traffig ymhellach, yn Llundain) erbyn Ebrill 2014;
- deddfu fel y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion 'rheoleiddio' lefel isel, niferus y tu allan i'r llys ynadon traddodiadol, os bydd amser Seneddol yn caniatáu;
- galluogi'r heddlu i erlyn achosion lefel isel o siopladrad erbyn yr haf 2014, os bydd amser Seneddol yn caniatáu;
- sicrhau bod yr heddlu a'r CPS yn gwneud mwy i nodi, a pharatoi'n briodol, achosion lle disgwylir i'r diffynnydd bledio'n euog, erbyn Ebrill 2014; a
- nodi, diwygio ac yna monitro cydymffurfio gyda'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol a Chyfarwyddiadau Ymarfer erbyn Rhagfyr 2013.

**CJS dryloyw ac ymatebol:**

- erbyn Hydref 2013, am y tro cyntaf, byddwn yn gadael i gamerâu teledu ddod i'r Llys Apêl i agor busnes y llys i'r cyhoedd fel y gall pobl weld a chlywed penderfyniadau'r barnwyr yn eu geiriau eu hunain;
- erbyn Hydref 2013, byddwn wedi cyhoeddi data ar brydlondeb achosion ar y wefan police.uk, fel bod pobl yn gallu gweld pa mor hir mae achosion yn ei gymryd yn eu hardal leol; ac
- erbyn y gwanwyn 2014, byddwn wedi cyhoeddi data ar berfformiad a gwariant yr heddlu'n lleol ac yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â'u heddlu lleol, er enghraifft drwy bleidleisio ar flaenoriaethau lleol.

**Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion:**

- rhoi mwy o gymorth i dystion sydd mewn perygl o newid eu meddwl ynghylch mynychu achos, erbyn Gorffennaf 2013;
- ei gwneud yn haws i dystion roi tystiolaeth drwy fideo, ac adolygu cynnydd hyn erbyn yr haf 2014; a
- darparu proses gwynion well i ddioddefwyr ac ystyried creu ombwdsmon cwynion annibynnol ar gyfer y CJS erbyn Awst 2013.

**Ymateb yn iawn i droseddu:**

- gwella cysondeb a'r defnydd o fesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a bygythiad - a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i adolygu'r cynnydd yn fuan yn 2014;
- treialu Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n caniatáu i dyst agored i niwed gael ei groesholi drwy recordio ymlaen llaw, mewn tri llys - Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Thames - gan ddechrau diwedd 2013;
- asesu sut y deliodd amrywiol heddluoedd â throseddau casineb at anabledd, erbyn Medi 2013;
- ailwampio datganiadau effaith ar y gymuned erbyn Ebrill 2014; a'r
- Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol i gynnal nifer o ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid ar gydraddoldeb o fewn y CJS, gan ddechrau yn yr hydref 2013.

**Gweithio mewn partneriaeth:**

- cyfathrebu blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i bartneriaethau lleol a sicrhau bod y cysylltiad rhwng y lefel genedlaethol a lleol yn cael ei gryfhau erbyn Medi 2013; a
- chyflwyno dull mwy cyffredin ar draws y CJS o ddarparu hyfforddiant, amcanion a rheoli talentau staff, gan ddechrau ym mis Medi 2013.

Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn parhau i drosolygu'r holl brif ddiwygiadau i'r CJS gan sicrhau eu bod, gyda'i gilydd, yn creu pecyn cynhwysfawr. Bydd y Bwrdd hefyd yn adolygu perfformiad yn rheolaidd, i sicrhau y darperir y diwygiadau ar amser a'u bod yn cael yr effaith sy'n ddymunol, a hefyd i gytuno ar ba newidiadau pellach sydd eu hangen. Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn gloywi'r cynllun gweithredu yn yr haf 2014 ac yn cyhoeddi diweddariad iddo i ddangos y cynnydd a wnaethom tuag at gyrraedd ein gweledigaeth a pha weithredu pellach sydd ei angen.

## CJS ddigidol

Mae wedi cymryd rhy hir o lawer i'r CJS gofleidio technoleg sydd eisoes wedi chwyldroi fwy neu lai pob busnes arall. Y peth cyntaf sy'n taro unrhyw un sy'n dod i lys yw'r mynyddoedd o ffeiliau papur a ddylai fod wedi diflannu cenhedlaeth yn ôl. Mae'r cyhoedd a'r bobl sy'n gweithio yn y CJS yn teimlo'n rhwystredig a dryslyd nad yw, i bob golwg, yn gallu mabwysiadu dulliau technolegol arloesol sy'n rhan o fywyd pob dydd i bawb arall. Ni lwyddwn i gyflawni ein cyd-ganlyniadau os na roddwn sylw i'r diffyg hwn.

Rydym wedi cymryd camau pwysig dros y tair blynedd diwethaf. Sefydlwyd Rhaglen Effeithlonrwydd CJS traws-Lywodraethol a ddechreuodd gyflwyno ffordd fwy effeithlon a digidol o weithio. Mae'r rhaglen eisoes wedi gwneud cynnydd sylweddol:

- mae'r rhan fwyaf o heddluoedd yn trosglwyddo dros 90% o'u ffeiliau achos yn electronig i'r CPS;
- cynhelir tua 50,000 o wrandawiadau fideo rhwng y carchar a'r llys pob blwyddyn, gan arbed amser a lleihau risg ac aflonyddwch;
- rhoddwyd 3,500 o ddyfeisiau tabled i erlynwyr y CPS i gyflwyno achosion yn electronig yn y llys; a
- mae cyfarpar cynadledda fideo bellach ar gael ym mhob carchar remand, yn dros hanner y llysoedd ynadon ac ym mhob Llys y Goron. Defnyddiwyd y cyfarpar hwn dros 32,000 o weithiau rhwng Mehefin a Rhagfyr 2012. Mae plismyn hefyd yn ei ddefnyddio i roi tystiolaeth mewn rhai llysoedd ac fel bod diffynyddion yn gallu ymddangos drwy gyswllt fideo ar gyfer y gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon.

**Rhyddhau amser yr heddlu**

Bydd y diwygiadau hyn yn elwa pob rhan o'r CJS ac yn cefnogi'r ymdrechion i ddarparu gwasanaeth gwell i'r cyhoedd yn rhatach. Un o'r amcanion yr ydym wedi canolbwyntio arno yw rhyddhau amser yr heddlu fel y medrant ganolbwyntio ar atal troseddu. Mae'r prif fanteision, sy'n ymateb i'r her yn yr adroddiad diweddar *Stop the Drift* gan HMIC, yn cynnwys dileu neu addasu prosesau diangen yn y CJS neu rai a ddefnyddir yn amhriodol, lleihau gor-baratoi ffeiliau achos, lleihau camgymeriadau sy'n arwain at ail-weithio, a lleihau'r amser a dreulir gan blismyn yn aros o gwmpas i roi tystiolaeth yn y llys.

Wrth galon hyn oll mae'r cynnig i sefydlu ffeil achos ddigidol symlach. Bydd creu ffeil ddigidol o'r cychwyn yn arbed yr amser y mae plismyn yn ei dreulio'n creu ffeiliau papur, a hefyd yn arwain at lawer llai o waith nes ymlaen i'r erlyniad, yr amddiffyniad a staff y llys. Bydd hefyd yn sicrhau bod ffeiliau achos yn cael eu creu i'r un safon, gan helpu swyddogion i ddarparu dim ond y wybodaeth sydd ei hangen a dim mwy. Rydym eisoes yn datblygu'r diwygiadau hyn ar gyfer achosion traffig gan obeithio ehangu i droseddu eraill dros y flwyddyn nesaf.

Rydym hefyd yn gweithio gyda'r heddlu i achub ar y potensial i ddefnyddio fideo i helpu i ryddhau amser yr heddlu. Mae naw heddlu eisoes yn defnyddio fideo fel bod plismyn yn gallu rhoi tystiolaeth yn y llys o orsaf yr heddlu, gan arbed amser teithio ac aros o gwmpas yn y llys. Rydym yn disgwyl i ddeunaw o heddluoedd eraill ddefnyddio fideo dros y flwyddyn i ddod.

Ochr yn ochr â hyn mewn plismona, mae'r rhaglen Digidol yn Gyntaf yn dechrau dangos potensial technoleg newydd i weddnewid pethau, fel y camera fideo ar-y-corff, cyfweliadau digidol a gweithio symudol. Bydd plismyn felly'n gallu cael gafael ar a chofnodi gwybodaeth

yn ddigidol wrth fod allan o gwmpas y lle, gyda gwybodaeth amser-go-iawn am droseddau'n dylanwadu ar bryd a lle y maent yn patrolio. Er enghraifft:

- mae heddluoedd yn Hampshire, Thames Valley a Plymouth wedi defnyddio fideo ar-y-corff i gasglu tystiolaeth yn well. Yn ôl yr Heddlu, mae hyn wedi gwella hyder y cyhoedd, lleihau ofn a chwynion maleisus yn erbyn plismyn, ac wedi arwain at ymddygiad mwy cymedrol gan y cyhoedd; a
- mae Heddlu Hampshire wedi treialu gweithio symudol yn defnyddio amrywiaeth o ddyfeisiau gan gynnwys y BlackBerry, dyfeisiau Data Symudol a gliniaduron, gan arbed amser i blismyn wrth deithio i ac o'r orsaf a gweithio'n well wrth symud.

Gyda'i gilydd, mae'r rhaglenni yma'n creu'r sylfeini fydd yn helpu'r CJS i drawsnewid ei hun yn llwyr i fod yn wasanaeth digidol. Yn ganolog i hyn fydd datblygu **ffeil achos ddigidol** newydd. Mae gan hyn y potensial i symleiddio cyfiawnder troseddol yn radical, gan arbed llawer iawn o amser i'r heddlu, erlynwyr ac i'r llysoedd. Ar hyn o bryd cynhyrchir ffeiliau sy'n cynnwys gormod o lawer o wybodaeth ddiangen na ddefnyddir byth weithiau, eto medrant golli gwybodaeth sy'n hollbwysig. Drwy greu ffeil achos symlach a chofleidio'r dull digidol, gallwn osgoi cynnwys gwybodaeth ddiangen a helpu i ddileu llawer o'r camgymeriadau cyffredin sy'n achosi oedi nes ymlaen yn y system. Yn y misoedd i ddod byddwn yn profi ffeil symlach i hwyluso dull *ap* ar gyfer achosion traffig a siop-ladrad, ac yn ymestyn hyn ar gyfer troseddau eraill gyda golwg ar sefydlu ffeil achos ddigidol safonol genedlaethol erbyn Ebrill y flwyddyn nesaf. Drwy weithio i ddechrau gyda'r heddlu ac asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill yn yr ardaloedd fydd yn ei mabwysiadu'n fuan, byddwn yna'n gobeithio ei chyflwyno i bobman arall o 2014/15 ymlaen.

I ecsbloetio'r cyfleoedd a gyflwynir i ni weithio'n wahanol drwy'r ffeil achos ddigidol, byddwn yn cyflawni'r weledigaeth o **lysoedd barn digidol.** Hwn fydd y datblygiad fydd yn rhoi diwedd am byth ar ddibyniaeth y CJS ar bapur, a chyfle i bawb weithredu'n ddigidol. Rydym eisoes wedi profi'r dull hwn yn Llys Ynadon Birmingham gyda thechnoleg syml sydd ar gael yn eang. Dangosodd hyn fod gan lysoedd digidol botensial i gynnig gwasanaeth llawer gwell, a fydd hefyd yn creu arbedion sylweddol. Ochr yn ochr â hyn byddwn yn achub ar bob cyfle i ddefnyddio fideo drwy flaenoriaethu cysylltiadau fideo rhwng y carchar a'r llys. Bydd hyn yn lleihau'r gost a'r amser a dreulir ar symud carcharorion i ac o'r llys a hefyd yn gwella diogelwch drwy leihau'r risg ohonynt yn dianc. Rydym hefyd yn gweithio gyda heddluoedd fel bod mwy o blismyn yn gallu rhoi tystiolaeth o'u gorsafoedd gan leihau'r amser a wastraffir yn teithio i ac aros yn y llys.

Yn y tymor hirach, bydd y ffeil achos ddigidol a sefydlu llysoedd barn digidol yn gosod y sylfeini i greu llwyfan gwybodaeth ddigidol cyffredin ar gyfer y CJS. Byddwn yn datblygu achos busnes i ddarparu, am y tro cyntaf, **un system rheoli gwybodaeth**, fel y gellir rhannu tystiolaeth a gwybodaeth am achosion ar draws y CJS. Bydd hyn yn sicrhau arferion gweithio mwy effeithlon i'r CPS a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (HMCTS) ac yn un ffynhonnell wybodaeth gyfun ar gyfer y CJS yn y dyfodol. Am y tro cyntaf, bydd y wybodaeth a gedwir gan yr asiantaethau hyn am achosion llys yn cael ei chadw gyda'i gilydd mewn un lle, yn hytrach na'n cael ei hail-gofnodi a'i hail-adrodd ar amryw o wahanol systemau, gyda'r holl bartïon perthnasol yn gallu cael gafael ar yr un data.

Daw gwir botensial y diwygiadau hyn yn amlwg pan weithredir hwynt ochr yn ochr â'r dechnoleg arloesol a ddefnyddir gan yr heddlu bob dydd. Bydd rhaglen Digidol yn Gyntaf yr heddlu nid yn unig yn hwyluso casglu tystiolaeth yn ddigidol yn y pwynt ryportio, ond bydd plismyn hefyd yn gallu dechrau creu'r ffeil achos CJS ar eu dyfais symudol. Dim mwy o ffurflenni hir i'w llenwi a theipio gwybodaeth sylfaenol o lyfr nodiadau - ond *apps* digidol syml sy'n sicrhau bod y wybodaeth fwyaf hanfodol yn cael ei chasglu unwaith ac yn y ffordd fwyaf effeithlon - er enghraifft manylion sylfaenol o lun trwydded yrru - gyda'r ffeil yn cael ei chreu'n gymesur o'r cychwyn.

Gyda fersiwn integredig o’r ffeil ddigidol bydd yn llawer haws i ddioddefwyr dderbyn gwybodaeth am eu hachos ar-lein mewn amser-go-iawn neu gael eu diweddaru’n awtomatig os yw statws eu hachos yn newid.

**Crynodeb o’r prif gamau gweithredu:**

- profi ffeil achos ddigidol symlach ar gyfer achosion traffig a siop-ladrad erbyn Ebrill 2014;
- sefydlu ffeiliau achos digidol ar gyfer troseddau eraill a’i chyflwyno i bob ardal erbyn Ebrill 2015;
- cwblhau achos busnes ar gyfer llysoedd digidol, erbyn diwedd 2013;
- gorffen dibynnu ar bapur erbyn 2015/16; a
- cwblhau’r achos busnes ar gyfer y llwyfan cyffredin erbyn diwedd 2013 a dechrau darparu’n fuan yn 2014.

## CJS sy'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf

Ni allwn obeithio cyflawni ein cyd-ganlyniadau os na fydd gennym system fwy effeithlon. Ni allwn ddisgwyl i'r cyhoedd gael ffydd mewn system lle mae hyd yn oed achosion cymharol syml yn cymryd hyd at chwe mis o'r drosedd i'r canlyniad, a lle gall rhai troseddau rhywiol gymryd dros flwyddyn i ddod i gasgliad. A gallem dargedu llawer mwy o adnoddau at fynd i'r afael â throseddu pe bai tystion yr heddlu ond yn cael eu galw pan fo angen ac yn treulio llai o amser yn teithio i ac aros yn ddiangen yn y llys.

**Mwy o dreialon yn cael eu cynnal ar ddiwrnod eu rhestru**

Ni allwn gosbi troseddwyr, gwneud iawn â dioddefwyr na mynd i'r afael ag ail-droseddu'n amserol os mai ond 44% o dreialon llys ynadon a 49% o rai Llys y Goron sy'n digwydd ar y diwrnod y rhestrwyd hwynt i gael eu cynnal.[7] I wella perfformiad yn radical, mae angen i ni weld:

- ffeiliau achos symlach yn cael eu creu gan yr heddlu, sy'n cynnwys y wybodaeth iawn a dim byd arall;
- ymgysylltu gwell rhwng y CPS a'r amddiffyniad, gyda'r ddwy ochr yn barod i symud ymlaen ar y diwrnod rhestru;
- tystion wedi eu cefnogi ac yn barod am eu diwrnod yn y llys; a
- diwylliant llys o ddim gohirio a phob ochr yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau'r llys.

Am rhy hir, mae'r CJS wedi'i phlagio gan yr un trafferthion aneffeithlonrwydd. Mae cymhlethdod y system yn eu gwahodd; mae'r nifer fawr o gamau a'r amryw byd o wahanol asiantaethau a phobl sy'n gweithio hyd yn oed ar achosion syml, yn creu myrdd o gyfleoedd i ran o'r broses fynd o'i le. Yn aml iawn mae hyn yn golygu gwastraffu amser yn ail-weithio achos neu'n ceisio canfod ffyrdd o weithio o gwmpas rhwystrau fel TG anghydnaws. Mae wedi arwain at greu diwylliant sydd wedi hen arfer â chamgymeriadau ac ail-weithio, ac sydd i raddau'n eu goddef, a gwasanaeth sy'n syrthio'n brin o'r safonau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl.

Gwelsom welliannau pwysig ers 2010. Erbyn hyn mae gennym gydbwysedd llawer gwell rhwng gwaith sy'n mynd gerbron Llys y Goron a gwaith sy'n aros yn y llysoedd ynadon. Rhwng 2004 a 2010, roedd cynnydd sylweddol yn nifer yr achosion oedd yn cyrraedd Llys y Goron. Mae'n broses llawer drytach - er enghraifft, mae'r gorchymyn costau arferol gan y CPS am gynnal treial deirgwaith yn fwy yn Llys y Goron na mewn llys ynadon[8] – mae'n cymryd hirach ac, yn anad dim, yn methu â gwneud defnydd llawn o arbenigedd ynadon. Er mwyn cymell yn erbyn anfon achosion yn ddiangen i Lys y Goron, mae'r Llywodraeth eisoes wedi cyflwyno newidiadau i'r fframwaith taliadau ar gyfer cymorth cyfreithiol. Rydym hefyd wedi cyhoeddi y bwriadwn edrych ar y cymysgedd achosion rhwng y ddau lys. Yn ddiweddar, mae'r duedd wedi gwrth-droi'n amlwg, gyda 10% yn llai o achosion yn mynd i Lys y Goron yn 2012 o'i gymharu â 2011, a 18% yn llai o dreialon naill ffordd neu'r llall yn cael eu traddodi. [9]

---

[7] *Court Statistics Quarterly October to December 2012, Ministry of Justice, May 2013*

[8] *Legal Guidance on Costs – Annex 1: Application for costs against convicted defendants - Scales of Cost,* Gwasanaeth Erlyn y Goron, (www.cps.gov.uk/legal/a_to_c/costs/annex_1_-_scales_of_cost/, 10/06/2013)

[9] *Court Statistics Quarterly January to March 2013*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2013

Mae rhaglen effeithlonrwydd y CJS wedi brasgamu ymlaen gyda digideiddio rhannau o'r system a chanfod ffyrdd mwy effeithlon o weithio, mae'r farnwriaeth wedi datblygu ffyrdd newydd a gwell o reoli achosion sy'n dod i'r llys, ac rydym wedi dileu rhai o'r camau diangen yn y broses fel gwrandawiadau traddodi.

Ond gallwn wneud llawer mwy ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol i gael achosion yn iawn y tro cyntaf, i ysgafnu peth o'r rhwystredigaeth sydd gan rai sy'n dod i gysylltiad â'r system ac i ryddhau amser ein plismyn ac ymarferwyr eraill i ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig.

Roedd yr adran flaenorol yn disgrifio sut allwn ddefnyddio technoleg i weddnewid sut mae'r CJS yn gweithio. Ond bydd hyn ond yn cael yr effaith iawn os canolbwyntiwn hefyd yn ddi-baid ar leihau'r gwallau syml sydd mor andwyol i'r system fel y mae. Buom yn gweithio gydag ymarferwyr y CJS i benderfynu beth fydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf, ac mae'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi nodi pedair blaenoriaeth:

- gwella ansawdd y gwaith o baratoi ffeiliau fel eu bod yn cynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol a dim mwy;
- trawsnewid cyfiawnder diannod, fel ei fod yn symlach, yn gynt ac yn fwy cymesur;
- mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn Llys y Goron; a
- sicrhau bod mesurau perfformiad yn gyson â'i gilydd ac yn annog yr ymddygiad iawn.

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu:**

- gwella ansawdd y gwaith o baratoi ffeiliau achos erbyn Ebrill 2014;
- sefydlu un llys traffig ym mhob ardal heddlu (ac edrych i weld a ellir canoli llysoedd traffig ymhellach, yn Llundain) erbyn Ebrill 2014;
- deddfu fel y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion 'rheoleiddio' lefel isel, niferus y tu allan i'r llys ynadon traddodiadol, os bydd amser Seneddol yn caniatáu;
- galluogi'r heddlu i erlyn achosion lefel isel o siop-ladrad erbyn yr haf 2014, os bydd amser Seneddol yn caniatáu;
- sicrhau bod yr heddlu a'r CPS yn gwneud mwy i nodi, a pharatoi'n briodol, achosion lle disgwylir i'r diffynnydd bledio'n euog, erbyn Ebrill 2014; a
- nodi, diwygio ac yna monitro cydymffurfio gyda'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol a Chyfarwyddiadau Ymarfer erbyn Rhagfyr 2013.

## Gwella ansawdd y gwaith o baratoi ffeiliau

Gall camgymeriadau syml ar ddechrau achos arwain at ail-weithio helaeth nes ymlaen a threialon nad ydynt yn digwydd ar ddiwrnod eu rhestru, neu sy'n cwympo hyd yn oed. Mae sicrhau bod y ffeil achos yn cynnwys popeth angenrheidiol a dim byd arall yn hollbwysig - gyda'r wybodaeth iawn ar gael ar yr adeg iawn, i sicrhau y gellir pledio'n briodol cyn gynted ag y bo modd.

Mae cael achos yn iawn y tro cyntaf yn dibynnu ar gael y gwaith o baratoi a phethau sylfaenol eraill yn iawn. Roedd yr adran flaenorol yn disgrifio sut y byddwn yn symleiddio'r hyn sydd ei angen, ac yn lle digideiddio'r hyn sy'n bodoli'n barod, ein bod yn achub ar bob cyfle a gyflwynir gan y dull digidol i wneud gwelliannau radical.

Rydym wedi dechrau drwy sefydlu grwpiau gorchwyl a gorffen 60 diwrnod sy'n dod ag ymarferwyr ar draws y CJS at ei gilydd i edrych ar sut ymdrinnir ag achosion traffig a siop-ladrad. Maent wedi nodi bod potensial i wneud i ffwrdd â chyfran helaeth o'r wybodaeth a gynhwysir fel mater o drefn ar y funud, ac i ecsbloetio digideiddio i wneud y ffeil yn llawer cliriach o ran yr hyn sy'n ofynnol ac yn llawer haws i'w defnyddio. O ganlyniad bydd angen i'r heddlu dreulio llawer llai o amser ar baratoi ffeiliau a medrant hefyd ddefnyddio dyfeisiau symudol yn y dyfodol.

I gefnogi'r gwaith hwn, mae angen i ni sicrhau bod gan bawb sy'n gyfrifol am baratoi ffeiliau achos y sgiliau a'r cymorth sydd ei angen arnynt. I wneud hyn, byddwn yn sicrhau bod yr heddlu wedi eu hyfforddi a'u cefnogi i baratoi ffeiliau'n gywir, gan gynnwys drwy:

- adolygu'r deunyddiau hyfforddiant, a chyflwyno hyfforddiant gloywi lle bo angen , i wella arbenigedd wrth ddelio gyda datgelu;
- gwella cysondeb y cyngor ar gyhuddiadau i gefnogi hyn, o fis Ebrill 2013 ymlaen, dechreuodd y CPS ymdrin â'r holl geisiadau priodol am gyngor ar gyhuddiadau, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, drwy CPS Direct (gwasanaeth y CPS sy'n delio'n llwyr â chyhuddiadau). Bydd y CPS yn gweithio i sicrhau bod y trefniadau newydd hyn yn hwyluso cyngor mwy cyson ar gyhuddiadau; a
- sefydlu a yw'r canllawiau a'r hyfforddiant presennol, ac ymwybyddiaeth o'r safonau ar baratoi a chreu ffeiliau cymesur a phrydlon, yn cwrdd â'r gofynion, a monitro a gwella ansawdd a chydymffurfio â'r gofynion hynny.

## Trawsnewid cyfiawnder diannod

Mae achosion diannod, wrth natur, ymhlith y rhai symlach a ddaw gerbron y llysoedd. Ond maent yn cymryd rhy hir, ac yn aml yn rhy gymhleth, yn defnyddio gormod o adnoddau'n aml a heb gael eu paratoi'n ddigonol ymlaen llaw, sy'n gallu arwain at ail-weithio a gohirio'n ddiangen. Mae'r llysoedd ynadon yn delio â nifer enfawr ohonynt - cwblhawyd 1.1 miliwn o achosion diannod (oedolion) y llynedd[10] - gan amrywio o droseddau cymharol lefel isel, fel amryw o achosion traffig neu osgoi talu ffi'r drwydded deledu, i droseddau sy'n gallu effeithio'n ddifrifol ar ddioddefwyr a chymunedau, fel anhrefn treisgar. Mae rhai o'r troseddau mwyaf niferus yn dod i'r llys heb hyd yn oed i'r diffynnydd fod yn bresennol. Yn 2012, roedd troseddau goryrru'n cyfrif am 9% o'r holl a gafwyd yn euog ym mhob math o lys, neu dros 110,000 o bobl. Mae osgoi talu ffi'r drwydded, osgoi talu am docyn a methu â thalu treth ffordd hefyd yn cyfrif am nifer fawr o achosion llys pob blwyddyn.[11]

Nid yw'r troseddau hyn heb eu dioddefwyr ac rydym yn bendant y dylai'r troseddwyr hyn ddod o flaen eu gwell. Fodd bynnag, nid yw'n golygu mai'r system bresennol yw'r ffordd orau o wneud hyn. Mae'r llysoedd ynadon, ac ynadon gwirfoddol sy'n rhoi eu hamser yn hael i'w cymunedau, yn treulio gormod o amser ar achosion nad ydynt yn cael dim neu fawr ddim effaith ar y cymunedau hynny a lle nad oes angen fawr ddim arbenigedd cyfreithiol nac o ran canfod ffeithiau. Yn aml, mae rôl y CPS yn ddiangen mewn achosion syml fel hyn. A phan fydd cyn lleied o ddiffynyddion yn mynychu achosion lefel isel, niferus fel methu â thalu'r dreth ffordd, pam ddylid parhau i'w cynnal mewn llys barn sy'n llawn o staff? Mae angen i ni gefnu ar sefyllfa lle mae tri ynad, cynghorwr cyfreithiol ac erlynydd (i gyd wedi eu cefnogi gan borthor llys) yn darllen allan elfennau o achos i ystafell sydd fel arall yn wag cyn rhoi cosb sy'n gwbl ddisgwyliedig. Mae gennym system or-gymhleth sydd angen ei hailwampio'n llwyr.

---

[10] *Court Statistics Quarterly January to March 2013*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2013

[11] *Criminal Justice Statistics Quarterly Update to December 2012*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mai 2013

I symleiddio achosion yn radical a'r system yn ei chyfanrwydd, byddwn yn:

- deddfu fel y gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o achosion lefel isel, 'rheoleiddio' niferus y tu allan i'r llys barn ynadon traddodiadol, os bydd amser Seneddol yn caniatáu; ond yn y cyfamser, byddwn yn cymryd camau ar unwaith i sefydlu un llys traffig ym mhob ardal heddlu (ac yn edrych i weld a ellir canoli llysoedd traffig ymhellach, yn Llundain), i fod yn ei le erbyn Ebrill 2014;
- annog mwy o erlyniadau gan yr heddlu ar gyfer troseddau traffig diwrthwynebiad a throseddau penodol eraill, ar ôl gwerthuso canlyniadau'r ardaloedd braenaru yn yr haf, gan leihau costau a throsglwyddiadau rhwng asiantaethau, a rhyddhau amser y CPS i ganolbwyntio ar achosion mwy difrifol a wrthwynebir; a
- cynyddu ymhellach nifer yr achosion y gall yr heddlu eu herlyn heb fod angen cynnwys y CPS, drwy ddeddfu yn y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona, i wneud siop-ladrad yn drosedd diannod yn unig lle mae'r nwyddau a ddwynir yn werth £200 neu lai. Byddai hyn yn golygu bod y mwyafrif llethol o achosion siop-ladrad yr ymdrinnir â nhw'n barod yn y llysoedd ynadon yn destun gweithdrefnau mwy effeithlon, er y byddai'r diffynnydd dal yn gallu dewis treial yn Llys y Goron.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod achosion, lle mae hyn yn bosibl, yn cael eu datrys yn gyflym, drwy nodi achosion posibl lle gellir pledio'n euog yn fuan a sicrhau pledion buan. Byddwn yn:

- sicrhau bod yr heddlu a'r CPS yn gwneud mwy i nodi, a pharatoi'n briodol, achosion lle disgwylir i'r diffynydd bledio'n euog;
- sicrhau bod achosion lle disgwylir ple euog yn cael eu blaenoriaethu i'w paratoi'n fuan a, lle bo hynny'n bosibl, ar gyfer gwrandawiad buan; a
- gweithio gyda'r gymuned amddiffyn ar sut orau i baratoi diffynydd ar gyfer gwrandawiad cyntaf, gan gynnwys sut i wneud cyfreithwyr dyletswydd yn fwy effeithiol.

Byddwn hefyd yn gweithio i sicrhau bod yr achosion hyn, sut bynnag yr ymdrinnir â hwynt yn y llys, eu bod yn symud ymlaen yn llyfn. Byddwn yn:

- sicrhau bod mwy o wrandawiadau'n symud ymlaen ar ddiwrnod eu rhestru drwy ganolbwyntio adnoddau ar wneud y gwrandawiad cyntaf mor effeithiol â phosibl mewn achosion sy'n debygol o fynd i dreial;
- sefydlu gweithgor fydd yn adrodd i'r Uwch Farnwr Llywyddol i roi arweiniad ar gymhwyso'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol mewn achosion diannod, gyda golwg ar wneud paratoi'n symlach a mwy cymesur;
- cefnogi'r Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Ynad) a'r Anrhydeddus Farnwr Kinch QC yn eu hadolygiad o'r rheolau ar ddatgelu mewn llysoedd ynadon i sicrhau eu bod yn gymesur ac effeithiol; ac
- gwneud defnydd gwell o erlynwyr asiantaeth mewn llysoedd ynadon drwy sicrhau y medrant gymryd ac erlyn achosion 'sigledig' ac ôl-achosion pan fydd yr achosion a ddyrannwyd iddynt naill ai'n cael eu hildio, eu gohirio neu'n gorffen yn gynt ar y diwrnod.

Ac mae holl aelodau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi cytuno y dylai cefnogi'r newydd-wedd ar raglen Atal Oedi Mewn Cyfiawnder y farnwriaeth fod yn flaenoriaeth i'r holl asiantaethau sy'n rhan o achosion sy'n mynd gerbron y llysoedd ynadon. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu - yn adrodd i'r Uwch Farnwr Llywyddol - i ddarparu pecyn cynhwysfawr o fesurau hyfforddiant, disgwyliadau a chanllawiau ar gyfer asiantaethau'r CJS, ymarferwyr amddiffyn ac ynadon, ac yn sicrhau bod ei ddarparu'n flaenoriaeth leol.

## Mynd i'r afael ag aneffeithlonrwydd yn Llys y Goron

Mae llawer iawn o gynnydd wedi bod yn Llys y Goron yn y blynyddoedd diwethaf. Mae Cynllun Ple Euog Cynnar y farnwriaeth a gwaith i reoli achosion yn well wedi gosod sylfeini da ar gyfer proses lawer mwy effeithlon yn Llys y Goron. Un o gryfderau'r gwaith hwn yw'r eglurder y gall ei roi ynghylch y cyfraniad sydd ei angen gan bob rhan o'r CJS os yw achosion i'w rheoli'n effeithlon ac effeithiol. Rydym yn ymrwymedig i ddysgu gwersi o ddiwygiadau blaenorol: lle mae gwelliannau'n digwydd, rydym am adeiladu arnynt, nid cyflwyno rhywbeth newydd yn eu lle. Ein blaenoriaeth dros y cyfnod nesaf fydd sicrhau bod pob rhan o'r system yn canolbwyntio ar wneud eu rhan i sicrhau bod y cynlluniau hyn yn llwyddo.

Nod y Cynllun Ple Euog Cynnar yw nodi'r achosion hynny lle mae'r diffynnydd yn debygol o bledio'n euog a sicrhau, drwy drafodaeth rhwng yr amddiffyniad a'r erlyniad, bod y diffynnydd yn pledio'n euog yn y gwrandawiad cyntaf yn Llys y Goron. Mae hefyd yn ceisio sicrhau (lle bynnag y bo hynny'n bosibl) bod diffynyddion yn cael eu dedfrydu yn eu gwrandawiad cyntaf. Mae'r Cynllun yn annog creu ffeiliau cymesur, gyda'r CPS ond yn cyflwyno tystiolaeth sy'n ddigon i ddangos i'r amddiffyniad y bydd yr achos yn sefyll i fyny yn yr achosion hyn. Yn yr amrywiol ffyrdd hyn, dylai'r Cynllun leihau nifer y tystion sy'n mynychu'r llys.

Datblygwyd y Cynllun yn Lerpwl ac mae bellach wedi'i ehangu ar draws Cymru a gweddill Lloegr. Mae achosion traddodi bellach wedi eu dileu (gan olygu nad oes angen i achosion sydd i'w gwrando yn Llys y Goron gael gwrandawiad diangen mewn llys ynadon mwyach). Dylai dileu achosion traddodi, ynghyd â'r Cynllun Ple Euog Cynnar, leihau nifer y gwrandawiadau diangen.

Er bod gan y Cynllun botensial i gyflawni gwelliannau sylweddol, yr adborth hyd yma yw ei fod yn rhoi canlyniadau cymysg, gyda rhai ardaloedd yn perfformio'n well nag eraill. Mae'n ddyddiau cynnar iawn o hyd ar gyfer asesu sut fydd y Cynllun, a dileu achosion traddodi, yn gweithio gyda'i gilydd yn ymarferol; mae'n bwysig mabwysiadu dull ymarferol a chanolbwyntio ar y nod o leihau nifer y gwrandawiadau diangen yn gyffredinol. Bydd ein hymrwymiad i sicrhau bod ffeiliau achos yn cael eu paratoi'n well yn cefnogi'r Cynllun hwn, ac mae pob aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol hefyd wedi ymrwymo i sicrhau y byddant yn gwneud eu rhan fel bo'r Cynllun yn llwyddo.

Ar gyfer y CPS mae hyn yn golygu:

- cyfrifoldeb personol ac arweinyddiaeth gan Brif Erlynydd y Goron, sy'n rhaid iddo gytuno ar y dull o weithredu, gyda'r Prif Gwnstabl;
- sefydlu tîm dynodedig gyda digon o adnoddau i wneud holl waith paratoi Llys y Goron ar gyfer yr ardal;
- dylai adfocad yr erlyniad ofyn i'r amddiffyniad nodi unrhyw broblemau sy'n gysylltiedig â'r achos yn y gwrandawiad cyntaf mewn llys ynadon;
- nodi'n fuan yr holl achosion Llys y Goron sy'n debygol o arwain at ble euog, a thrafod yn fuan gyda'r amddiffyniad ynghylch y potensial i gael ple euog neu ble cyhuddiad arall; dylai achosion gwan a nodir ar y pwynt hwn gael eu stopio neu eu disodli gyda chyhuddiadau diannod yn unig;
- ymdrin yn brydlon â phob agwedd ar adolygu, cynllunio a pharatoi achos, gan gynnwys ymateb i ohebiaeth a galwadau ffôn, a gwneud nodiadau clir ynghylch y gwaith sydd angen ei wneud fel bo'r amddiffyniad yn gallu rhoi cyngor trylwyr i'w cleient a sicrhau gwrandawiad dedfrydu effeithiol; a
- dylid tynnu sylw'r barnwr dedfrydu at achosion lle mae ple euog yn debygol, er mwyn helpu i asesu'r 'cyfle rhesymol cyntaf'.

Ar gyfer yr heddlu mae hyn yn golygu:

- cyfrifoldeb personol dros weithredu gan uwch gynrychiolydd o bob heddlu;
- cydymffurfio gyda'r Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Lleol;
- cytuno gyda'r CPS a glynu wrth y safon ddisgwyliedig ar gyfer creu ffeiliau mewn achosion lle mae ple euog yn debygol, gyda golwg ar osgoi gwaith diangen;
- cyflwyno ar unwaith unrhyw geisiadau am dystiolaeth arbenigol i sicrhau y gellir cwrdd â'r amserlen yn y Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Lleol;
- nodi, yn glir ac ar wahân, unrhyw achosion addas yn y systemau tracio ffeiliau presennol; a
- casglu a rhannu gwybodaeth reoli berthnasol gydag asiantaethau eraill.

Ar gyfer HMCTS (yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon) mae hyn yn golygu:

- cyfrifoldeb personol dros weithredu gan Glerc yr Ynadon neu ei ddirprwy enwebedig mewn llysoedd ynadon, a chan reolwyr gweithredol yn Llys y Goron;
- cydymffurfio gyda'r Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Lleol;
- mewn achosion naill ffordd neu'r llall a rhai ditiadwy'n unig, rhaid nodi achosion cymwys mor fuan â phosibl ar y ffurflenni priodol, a chreu cofnodion priodol; a
- dylai swyddogion rhestru, cynghorwyr cyfreithiol, ynadon, y CPS a thwrneiod gael eu hyfforddi neu eu briffio ar ofynion y cynllun a'i oblygiadau, a chael gwybod am unrhyw newidiadau iddo.

Ar gyfer yr amddiffyniad mae hyn yn golygu:

- rhaid i gwmnïau ddefnyddio'r Nodyn Cyfarwyddyd Ymarfer Lleol;
- dylent gael cynnig cyswllt rheolaidd ag arweinydd lleol y CPS i hyrwyddo ac adolygu gweithrediad y cynllun;
- mabwysiadu e-bost diogel;
- dylai uwchbartneriaid mewn cwmnïau cyfreithiol hyrwyddo'r cynllun i'w holl staff yn yr adran droseddol, ac os yw'r llwyth gwaith yn ddigonol dylent ystyried sefydlu tîm Cynllun Ple Euog Cynnar, neu enwebu arbenigwyr;
- dylid adolygu achosion yn brydlon ar ôl y gwrandawiad dyrannu / anfon am dreial. Dylid cychwyn ar y broses o ddyrannu adfocad i gyflwyno'r achos o fewn 48 awr i ddyrannu'r achos;
- dylid ystyried systemau ar gyfer cofnodi a monitro achosion ac archebu'n ddigon buan y slotiau i ymweld â charchar ar gyfer diffynyddion yn y ddalfa;
- dylai gohebiaeth gyda'r CPS ar sail y ple fod yn ohebiaeth ysgrifenedig; a
- mewn achosion lle mae ple euog yn debygol ond mae'r diffynydd yna'n dewis pledio'n ddieuog, rhaid i'r amddiffyniad roi gwybod i'r llys cyn y gwrandawiad.

Hefyd, byddwn yn cynyddu effeithlonrwydd mewn achosion Llys y Goron drwy wella cydymffurfio â'r Nodiadau Cyfarwyddyd Ymarfer Lleol a hefyd Rhan 1 (y prif amcan) a Rhan 3 (rheoli achosion) y Rheolau Trefniadaeth Droseddol. Byddwn yn datblygu matrics fel bo'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a phartneriaethau lleol yn gallu monitro perfformiad yn erbyn yr ymrwymiadau hyn a chydymffurfio â'r rheolau, fel y gellir cymryd camau priodol i roi sylw i danberfformiad.

Dyluniwyd y **rhaglen Rheoli Achosion** i sicrhau bod achosion yn cael eu datrys yn fuan, defnydd mwy effeithlon o amser, defnydd gwell o'r llysoedd, llai o waith diangen gan asiantaethau cyfiawnder troseddol, treialon byrrach a mwy cryno, a bod yr holl bartïon ym mhob achos yn gwybod am a glynu wrth ddisgwyliadau'r llys. Mae'r Uwch Farnwr Lywyddol wedi profi'r cynllun mewn chwe llys ac wrthi'n ei fanwl-gyweirio cyn datblygu strategaeth weithredu i sicrhau bod mwy o gydymffurfio â'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol ar draws Cymru a Lloegr. Cwblheir hyn erbyn mis Rhagfyr 2013. Bydd Cadeirydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn gofyn am ymrwymiad yr holl aelodau i sicrhau ei lwyddiant. Yn ogystal byddwn yn:

- datblygu trefniadau fel bo'r CPS a'r amddiffyniad yn adolygu'r ple'n ffurfiol ym mhob achos, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Ple Euog Cynnar; Byddai hyn yn digwydd rhwng y Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos a'r treial a'i bwrpas yw nodi mwy o bledion euog cyn diwrnod y treial Dylai hefyd sicrhau bod pob achos lle plediwyd yn ddieuog yn symud ymlaen at dreial yn ddi-oed a fyddai'n fanteisiol i bob asiantaeth ac efallai'n arwain at lai o wrandawiadau aneffeithiol a datrys achosion yn gynt;
- sicrhau bod erlynwyr yn helpu barnwyr i benderfynu a yw achos yn un priodol ar gyfer amserlen. Byddwn yn cyflwyno cyfres syml o feini prawf i erlynwyr eu defnyddio i nodi'r math o achos lle gallai amserlen fod yn briodol, a lle bo hynny'n briodol, gwneud cais am hynny a chyflwyno drafft cytunedig i'r Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos. Gallai hyn fod o fantais arbennig mewn achosion lle mae amryw o dystion a rhoi amcan gwell o ran amseru'r achos gan roi mwy o eglurder i dystion a dioddefwyr, gan osgoi aros yn hir y tu allan i'r llys;
- adolygu'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio gyda'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, y Cyfarwyddiadau Ymarfer a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Ymarfer lleol mewn achosion Llys y Goron, a gweithredu i wella perfformiad; ac
- ar gyfer yr is-set o achosion trwm-ar-bapur, byddwn yn goruchwylio gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn sgîl adolygiad datgelu'r Uwch Farnwr Llywyddol i sicrhau datgelu mwy penodol mewn achosion sy'n drwm ar ddogfennau. Bydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn profi dull wedi'i deilwrio mewn pedair canolfan llys (Birmingham, Manchester Crown Square, Kingston upon Thames, a Southwark) cyn ei gyflwyno i'r llysoedd i gyd.

## Sicrhau bod mesurau perfformiad yn gyson â'i gilydd

Bydd asiantaethau ond yn gallu cyrchu at yr un nod i gyflawni'r cyd-ganlyniadau os yw'r ffordd y mae'r system yn mesur eu perfformiad yn galluogi hyn.

Dro ar ôl tro mae mesurau perfformiad anghyson yn cael eu beio fel un o'r prif resymau dros ymarferion aneffeithlon ar draws asiantaethau. Yn adran nesaf y cynllun gweithredu hwn, disgrifiwn sut y bwriadwn sicrhau mwy o eglurder wrth ddefnyddio gwybodaeth am berfformiad, a rôl y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol o ran cysoni mesurau perfformiad a monitro darpariaeth. Credwn hefyd fod methu â dilyn y Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn rheswm pwysig dros oedi, ond mae mor gyffredin fel ei fod yn aml yn cael ei oddef a bach iawn yw'r canlyniadau. Rydym yn benderfynol o sicrhau y cynigir y cymhellion iawn i berfformio'n well. Byddwn yn:

- gweithio gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a phartneriaethau lleol i nodi mesurau perfformiad lleol a chenedlaethol, ac yn dileu neu'n cysoni'r rhai sy'n rhwystro perfformiad effeithiol. Mae hyn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed eisoes gan y CPS a HMCTS wrth sefydlu cyd-fwrdd, cydamcan, cyd-ddata a chyd-fesurau a threfniadau cydweithredu, sydd gyda'i gilydd yn golygu y medrant adnabod a rhoi sylw i berfformiad

gwael a hyrwyddo arferion gorau, o bersbectif system gyfan yn hytrach nag o safbwynt un asiantaeth.

- nodi, diwygio ac yna monitro cydymffurfio gyda'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol a Chyfarwyddiadau Ymarfer drwy:
  - gweithio ag ardaloedd lleol dros weddill y flwyddyn i nodi, a lle gallwn, i roi sylw i'r rhesymau pam nad yw'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn cael eu dilyn mewn achosion Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon;
  - nodi unrhyw rwystrau i gydymffurfio na ellir eu goresgyn drwy newid canllawiau, diwylliant neu arferion, a gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i symleiddio trefniadaeth droseddol lle bo hynny'n berthnasol;
  - nodi'r data sylfaenol ar gydymffurfio lle bo hynny'n bosibl a chyflwyno mesurau priodol i fonitro pa mor dda y mae'r CPS a'r amddiffyniad yn cydymffurfio. Er enghraifft, mae'r CPS wedi cyflwyno lefel ddisgwyliedig ar gyfer ardaloedd o ran cydymffurfio â gorchmynion barnwyr yn Llys y Goron, sef o leiaf 75% yn 2013/14, i godi mae'n debyg i 90% yn 2014/15; ac
  - fel rhan o'n hymrwymiad i fod yn dryloyw gyda'n perfformiad, byddwn yn sicrhau bod y data hwn ar gydymffurfio ar gael i ymarferwyr y CJS fel bod unigolion yn gallu gweld a deall effaith eu perfformiad, a hefyd yn rhyddhau data lleol i'r cyhoedd fel y gellir dal y CJS i gyfrif.

Mae'r **rhaglen CJS Hyblyg** a gyhoeddwyd y llynedd wedi profi a ddylid creu mwy o hyblygrwydd o fewn y CJS, gyda phwyslais ar anghenion dioddefwyr a thystion.

Roedd y prosiectau peilot yn amrywio ac yn cynnwys llysoedd ynadon yn eistedd y tu allan i'r oriau traddodiadol, gyda'r nos ac ar benwythnos, a chynyddu'r defnydd o dechnoleg fideo.

Treialwyd y broses mewn 48 o ardaloedd. Cwblhawyd y broses beilot erbyn 31 Mawrth 2013 a bwriadwn gyhoeddi gwerthusiad ohoni yn yr hydref.

Cyn y gwerthusiad ffurfiol, mae sawl ardal eisoes wedi penderfynu parhau ag elfennau o'u prosiect lleol, gan roi manteision effeithlonrwydd wrth ddarparu gwasanaeth lleol fel un o'r rhesymau. Ar ôl gwerthuso'r broses, byddwn yn ystyried pa arferion gorau a ddysgwyd ac y dylid eu cyflwyno'n genedlaethol.

## CJS dryloyw ac ymatebol

Rydym yn glir ynghylch beth yr ydym am i'r system ei gyflawni. Mae angen i ni wybod pryd ydym yn llwyddo, a phryd ydym yn methu. Os ydym am wella ffydd y cyhoedd yn y CJS, a dangos ei bod yn deg a chyfiawn, a chreu amodau lle mae dioddefwyr a thystion yn hyderus yr atebir eu hanghenion drwy ddelio gyda'r CJS, mae hefyd angen i'r cyhoedd fod yn gallu dal y system i gyfrif.

Rydym wedi symud i ffwrdd o restr hirfaith o dargedau top i'r gwaelod oedd yn mygu arloesi ac yn golygu nad oedd gan ymarferwyr lleol fawr ddim disgresiwn i wneud y peth gorau i'w cymunedau. Rydym eisiau CJS sy'n fwy ymatebol i'r cyhoedd, nid dim ond i lywodraeth ganolog.

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu:**

- erbyn Hydref 2013, am y tro cyntaf, byddwn yn gadael i gamerâu teledu ddod i'r Llys Apêl i agor busnes y llys i'r cyhoedd fel y gall pobl weld a chlywed penderfyniadau'r barnwyr yn eu geiriau eu hunain;
- erbyn Hydref 2013, byddwn wedi cyhoeddi data ar brydlondeb achosion ar y wefan police.uk, fel bod y cyhoedd yn gallu gweld pa mor hir mae achosion yn ei gymryd yn eu hardal leol; ac
- erbyn y gwanwyn 2014, byddwn wedi cyhoeddi data ar berfformiad a gwariant yr heddlu'n lleol ac yn rhoi mwy o gyfle i'r cyhoedd ymgysylltu â'u heddlu lleol, er enghraifft drwy bleidleisio ar flaenoriaethau lleol.

Mae cael y wybodaeth iawn yn hanfodol i ddeall perfformiad, sut mae'n newid dros amser, a lle mae'r galwadau ar y system yn achosi newid mewn perfformiad. Mae hyn yr un mor wir i'r cyhoedd ag ydyw i reolwyr lleol neu weinidogion. Maent i gyd, am wahanol resymau, eisiau gwybod y medrant gael gafael ar wybodaeth i ddweud wrthynt sut mae'r CJS yn perfformio yn erbyn y meini prawf sy'n bwysig iddynt.

Nid yw CJS sy'n cael ei gweld fel system gymhleth ac anodd ei deall yn ennyn ffydd y bobl. Mae angen i ni newid hyn, a rhoi'r pŵer i bobl nid yn unig ddeall y system ond ei dal i gyfrif, a gwthio am berfformiad gwell pan fo angen. Mae cael gafael ar wybodaeth am sut mae'r system a phob rhan gyfansawdd ohoni'n perfformio yn gyfrwng iddynt wneud hynny. Yn eu tro, gall arweinwyr a rheolwyr ar draws y CJS - yn ogystal â gallu ymateb yn well i'r galw lleol am newid - ddefnyddio'r wybodaeth honno i wneud penderfyniadau ynghylch sut i ddefnyddio adnoddau a lle i dargedu eu hymdrechion i gyflawni'r cyd-ganlyniadau.

Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol yn barod:

- rydym bellach yn cyhoeddi ystod o ddata, e.e. ar ddedfrydu, ail-droseddu a phrydlondeb achosion yn y llys;
- mae'r wefan police.uk yn dangos troseddau lleol a'u canlyniadau i helpu'r cyhoedd i ddeall beth sy'n digwydd ar ôl i drosedd gael ei gyflawni yn eu hardal. Mae'r wefan wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda 55 miliwn o ymweliadau ers ei lansio ac, ar gyfartaledd, 17,000 ymweliad y dydd;[12]

[12] *Data ar POLICE.UK rhwng Rhagfyr 2011 – Tachwedd 2012*, Y Swyddfa Gartref (www.police.uk)

- mae'r wefan *You be the Judge* yn gadael i bobl ddeall ac ystyried y ffactorau sy'n rhan o benderfyniadau dedfrydu; ac
- rydym wedi deddfu i adael i gamerâu ddarlledu o'r llysoedd, gan ddechrau gyda'r Llys Apêl gan fwriadu ehangu hyn i Lys y Goron, oherwydd teimlwn y bydd gadael i'r cyhoedd glywed penderfyniadau'r barnwyr yn eu geiriau eu hunain yn eu helpu i ddeall yn well pam wnaed y dyfarniad hwnnw.

Ni fydd gan bobl ffydd mewn system ond os ydynt yn deall sut mae'n gweithio, beth fedrant ei ddisgwyl, a sut mae'n perfformio.  Bydd gwasanaeth cyhoeddus mwy agored yn gyrru gwelliannau o ran sut y darperir y gwasanaeth hwnnw a sut y pennir eu blaenoriaethau.
I gyflawni hyn, byddwn yn:

- cyhoeddi mwy o ddata ar berfformiad, gwariant a blaenoriaethau'r CJS fel bod y cyhoedd yn gallu deall y gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn eu hardal yn well, a sut mae'n cymharu ag eraill – gan ddechrau gyda mwy o wybodaeth am brydlondeb achosion ar police.uk;
- gweithio gyda phartneriaethau lleol i helpu i sefydlu pa wybodaeth sydd ei angen arnynt i gynllunio a monitro perfformiad yn effeithiol;
- rhoi'r wybodaeth iawn i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, ac yn gweithio gyda nhw i gysoni mesurau perfformiad ar draws y CJS fel y medrant fonitro'r cynnydd gyda chyflawni cyd-ganlyniadau'r CJS a'i gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol; ac
- ymchwilio i ddulliau effeithiol o rannu data ar ba mor fodlon yw defnyddwyr i sicrhau bod y ffordd y darperir gwasanaethau'n gwella.

Wrth ddarparu data i'r cyhoedd, defnyddiwn ddau lwyfan digidol – police.uk (sy'n rhoi mynediad i'r cyhoedd at ddata ar gyfiawnder a throseddau lleol) ac open.justice.co.uk (sy'n helpu i egluro'r system gyfiawnder gymhleth).  Yn ogystal â chymryd camau i wireddu potensial y gwefannau hyn yn llawn, byddwn yn darparu data mewn fformatau sy'n haws i'w hail-ddefnyddio, yn unol â chanllawiau ar ddata agored.

Byddwn yn defnyddio technegau llunio polisi agored ac ystwyth i gyd-ddylunio'r ddarpariaeth wybodaeth ar lefel leol a chenedlaethol. Yn defnyddio amryw o sianeli digidol a rhai mwy traddodiadol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaethau cyfiawnder troseddol lleol, sy'n dod â'r prif asiantaethau cyfiawnder troseddol mewn ardal heddlu at ei gilydd, i sefydlu eu gofynion data. Byddwn hefyd yn holi beth fydd gofynion darpar-ddefnyddwyr y tu allan i'r system cyfiawnder troseddol, fel awdurdodau lleol ac iechyd. Eto, bwriadwn wneud hyn mewn cydweithredid â'r partneriaethau cyfiawnder troseddol lleol, ac yn enwedig Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, sydd mewn sefyllfa dda i siarad ar ran eu cymunedau.

## Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu:**

- rhoi mwy o gymorth i dystion sydd mewn perygl o newid eu meddwl ynghylch mynychu achos, erbyn Gorffennaf 2013;
- ei gwneud yn haws i dystion roi tystiolaeth drwy fideo, ac adolygu cynnydd hyn erbyn yr haf 2014; a
- darparu proses gwynion well i ddioddefwyr ac ystyried creu ombwdsmon cwynion annibynnol ar gyfer y CJS erbyn Awst 2013.

Mae gan dystion a dioddefwyr fudd personol iawn yng nghyd-ganlyniadau'r CJS. Maent eisiau gweld y troseddwr yn cael ei ddal a'i gosbi ac nad yw'n cyflawni'r un drosedd eto, ac weithiau maent am weld y troseddwr yn gwneud iawn am y niwed a wnaethant.

Yn yr un modd, mae angen sicrhau bod dioddefwyr a thystion hwythau'n gwneud eu rhan os yw troseddwyr i ddod o flaen eu gwell. Gwyddom fod dioddefwyr a thystion sy'n fodlon â'u cyswllt gyda'r CJS yn fwy tebygol o weithio gyda'r CJS eto yn y dyfodol.[13] I gyflawni ein cyd-ganlyniadau, mae angen i ddioddefwyr a thystion fod yn ddigon hyderus i chwarae rhan lawn yn y system.

Gwelsom fod y wybodaeth iawn yn hollbwysig i hyder cyhoeddus oherwydd mae'n helpu pobl i ddeall beth sy'n digwydd o fewn y CJS. Mae hyn yn fwy gwir fyth am ddioddefwyr a thystion sy'n canfod eu hunain, yn aml heb fai o gwbl arnynt, yn rhan o'r broses.

Mae darparu'r cymorth iawn i ddioddefwyr a thystion wedi bod yn uchelgais gan y CJS ers tro ac mae llawer iawn o gynnydd wedi'i wneud. Ond mae angen i ni wneud y system yn fwy ymatebol a haws i'w thramwyo os ydym am roi dioddefwyr yn gyntaf a sicrhau eu bod yn ymgysylltu.

Ein nod yw gwella profiad dioddefwyr a thystion o'r CJS fel canlyniad ynddo'i hun a hefyd i gael mwy i gyfrannu at broses y CJS.

Nid yw un esgid i ffitio pawb o ran rhoi cymorth i ddioddefwyr wedi gweithio. Mae'n creu system lle rhoddir cymorth fel mater o drefn i rai nad oes mo'i angen na'i eisiau arnynt weithiau, tra bod dioddefwyr sy'n brwydro i ddelio ag effaith y troseddau gwaethaf, neu sy'n agored i niwed neu a dargedir yn barhaus, efallai'n colli allan ar y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae hefyd sgôp i dargedu cymorth yn well at ddioddefwyr na fyddai ganddynt hyder fel arall i ryportio trosedd neu i roi tystiolaeth yn y llys.

Y llynedd, cyhoeddodd y Llywodraeth *Getting it right for victims and witnesses*,[14] oedd yn cynnwys nifer o fesurau i wella'r cymorth a roddir, yn syth ar ôl cyflawni trosedd a hefyd i ymdopi â'r straen o fynd i'r llys. Mae llawer o'r mesurau hyn bellach yn cael eu gweithredu, gan gynnwys:

---

[13] *Satisfaction and willingness to engage with the Criminal Justice System: Findings from the Witness and Victim Experience Survey, 2009/10*, Cyfres Ymchwil 1/12 y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Chwefror 2012

[14] *Getting it right for victims and witnesses: the Government response*, response to consultation CP3/2012, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Gorffennaf 2012

- cyflwyno model cymysg o gomisiynu cenedlaethol a lleol ar gyfer darparu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i bobl leol yn well;
- diwygio'r Cod Dioddefwyr a'r Siarter Tystion fel bod y grwpiau pwysig hyn yn gwybod yn well beth i'w ddisgwyl ar eu siwrne drwy'r CJS;
- cynyddu ac ehangu'r Tâl Dioddefwyr a thaliadau gorfodol eraill, gan olygu y bydd troseddwyr yn talu hyd at £50 miliwn y flwyddyn tuag at wasanaethau dioddefwyr; a
- adolygu'r cyfyngiadau sydd ar ryportio yn y llysoedd i sefydlu a yw'r warchodaeth bresennol a roddir i ddioddefwyr a thystion yn ddigon.

Rhaid i gam nesaf ein diwygiadau ganolbwyntio ar wella'r wybodaeth sydd ar gael i ddioddefwyr a thystion ar eu siwrne drwy'r CJS. Fel y cyhoedd, rydym am weld dioddefwyr yn gallu dal y system i gyfrif, ac yn cael llais cryfach yn y penderfyniadau a wneir ynghylch sut ddylai cymorth gael ei ddarparu neu flaenoriaethau gael eu cyflawni.

Ar hyn o bryd gall dioddefwyr deimlo fel rhywun dibwys i'r system, sy'n cael eu diweddaru ar gynnydd eu hachos ond pan fyddant yn gofyn, ac nad ydynt yn cael gwybod bob tro am benderfyniadau a allai gael effaith ddofn ar eu gallu i ymdopi a dod dros eu profiad. Yn rhy aml gall tystion dreulio rhy hir yn sefyllian o gwmpas y llys yn aros i roi tystiolaeth, ac yn rhy aml nid ydynt yn cael eu galw, neu maent yn rhoi'r gorau i aros. Gall y profiad o roi tystiolaeth yn y llys fod yn frawychus, ac mae angen i ni fod yn siŵr ein bod yn darparu'r cymorth angenrheidiol i leihau hyn. Mae absenoldeb tystion yn un o'r prif resymau dros dreialon aneffeithiol.

Bydd y Cod Dioddefwyr newydd yn disgrifio'n union beth all dioddefwyr ei ddisgwyl gan y CJS ac mae'n rhoi dyletswyddau clir ar asiantaethau'r CJS. Ond gall pethau fynd o'i le, ac os ydynt dylai fod gan ddioddefwr hawl i gael esboniad a, lle bo'n briodol, dylid gwneud iawn. Yn lleol, mae Comisiynwyr Heddlu a Throseddu eisoes yn derbyn cwynion gan ddioddefwyr ar berfformiad asiantaethau cyfiawnder troseddol ond, wrth gwrs, nid yw'r pŵer ganddynt i ddal holl asiantaethau'r CJS i gyfrif. Yn genedlaethol, nid oes swyddogaeth ar draws y CJS sy'n sicrhau bod asiantaethau'n cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr wrth ddarparu gwasanaeth i ddioddefwyr.

Hyd yn oed pan geir troseddwr yn euog a'i ddedfrydu, gall dioddefwr neu dystion fod yn y tywyllwch ynghylch beth mae'n ei olygu neu pa wahaniaeth y bydd yn ei wneud. Nid yw pob dioddefwr eisiau iawn, ond weithiau byddai'n gymorth iddynt dderbyn ymddiheuriad gan y troseddwr, rhyw fath o iawn ariannol neu iawn o fath arall. Gall y llysoedd orchymyn sawl math o iawn ar hyn o bryd, o gyfiawnder adferol i orchmynion iawndal, o'r tâl dioddefwyr i dalu'n ôl i'r gymuned. Gwyddom fod rhai ohonynt yn gosb effeithiol ac y gall rhai leihau aildroseddu neu godi arian ar gyfer gwasanaethau i helpu dioddefwyr eraill. Ond ni wyddom beth sydd fwyaf effeithiol o ran gwneud iawn ystyrlon â dioddefwyr.

Byddwn yn:

- sicrhau bod y tystion sydd fwyaf mewn perygl o newid eu meddwl ynghylch dod i'r llys yn cael eu cefnogi'n effeithiol drwy adolygu'r trefniadau presennol ac, yn amodol ar beth fydd y darganfyddiadau, yn ystyried cyflwyno proses rheoli risg i dargedu'r bobl hynny;
- ei gwneud yn haws i dystion, gan gynnwys tystion arbenigol a phlismyn, roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo;
- datblygu Gwasanaeth Tystion effeithiol yn y llys, wedi'i gomisiynu'n genedlaethol, sy'n gweithio'n agos â'r Unedau Gofal Tystion i ddarparu'r safonau gofynnol ar driniaeth, darparu gwybodaeth a chymorth cyn ac yn ystod yr achos llys;

- edrych i weld sut allwn ddarparu gwybodaeth well i ddioddefwyr am y CJS ac am gynnydd eu hachos, gan adeiladu ar y wybodaeth sydd eisoes ar gael ar police.uk, a sut allwn ymestyn y system *Track My Crime* lwyddiannus sydd gan Heddlu Avon a Somerset;
- gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr, y Farwnes Newlove, i sicrhau bod y trefniadau i roi gwybod i ddioddefwyr pan fydd troseddwr ar fin cael ei ryddhau o'r carchar yn cwrdd orau ag anghenion dioddefwyr;
- gwella'r dulliau adborth, cwyno a gwneud iawn â dioddefwyr drwy gynnwys proses gwyno well yn y Cod Dioddefwyr diwygiedig, fel bod dioddefwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu, a beth i'w ddisgwyl, os bydd pethau'n mynd o'i le;
- ystyried yr achos dros gael ombwdsman cwynion annibynnol ar gyfer y CJS gyfan i ymchwilio i ac adrodd ar gwynion gan ddioddefwyr, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol; ac yn
- cynyddu gwneud iawn ystyrlon â dioddefwyr drwy sefydlu beth sy'n gweithio i'w helpu i ymdopi a dod dros eu profiad, ac yn nodi sut fyddwn yn gweithio tuag at hyn.

# Ymateb yn iawn i droseddu

Holl bwrpas y CJS yw lleihau troseddu. Mae gan bob rhan o'r system rôl i'w chwarae mewn lleihau troseddu: gwyddom y gall dal a chosbi troseddwyr atal troseddu a darparu cyfiawnder i ddioddefwyr hefyd, felly mae dod â throseddwyr o flaen eu gwell yn gyfraniad hollbwysig at leihau troseddu.

**Trawsnewid Ailsefydlu** Byddwn ond yn lleihau troseddu os gallwn leihau'r gyfradd aildroseddu ystyfnig o uchel. Mae'r Llywodraeth hon wedi lansio rhaglen uchelgeisiol i geisio gwneud hyn. Am y tro cyntaf o fewn cof i lawer, bydd pob troseddwr a ryddheir o garchar yn derbyn goruchwyliaeth ac ailsefydlu statudol yn y gymuned. Rydym yn deddfu i ymestyn yr oruchwyliaeth a'r ailsefydlu statudol hwn i bob un o'r 50,000 o droseddwyr mwyaf mynych - y rhai a ddedfrydir i lai na 12 mis yn y carchar. Rydym yn cyflwyno gwasanaeth ailsefydlu 'drwy gât y carchar' cenedlaethol na welwyd erioed mo'i fath o'r blaen, gan olygu y bydd un darparwr yn rhoi cymorth parhaus i'r rhan fwyaf o droseddwyr wrth drosglwyddo o'r carchar i'r gymuned. Bydd y farchnad yn cael ei hagor i ystod amrywiol o ddarparwyr ailsefydlu newydd, fel ein bod yn cael eu gorau o'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat, ac ar lefel leol yn ogystal â chenedlaethol.

Rydym hefyd yn cyflwyno cymhellion talu newydd i annog darparwyr i ganolbwyntio'n ddibaid ar ddiwygio troseddwyr, gan ryddhau darparwyr o fiwrocratiaeth a rhoi'r hyblygrwydd iddynt wneud beth sy'n gweithio, ond eu talu'n llawn ond am ddarparu lleihad gwirioneddol mewn aildroseddu. Bydd Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol cyhoeddus newydd yn cael ei greu, i amddiffyn y cyhoedd ac adeiladu ar yr arbenigedd a'r proffesiynoldeb sydd eisoes yn ei le. Bydd y system newydd yma yn ei lle erbyn 2015.

Mae'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a etholwyd y llynedd, yn gyfrifol am bennu blaenoriaethau troseddu'n lleol. Mae'n hanfodol bod partneriaethau CJS lleol yn ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau'r Comisiynwyr fel bo'r system gyfan yn cyfrannu at ddelio â throseddu. Fodd bynnag, ceir hefyd troseddau lle naill ai mae tystiolaeth o fethiant systemig o ran sut ddeliodd y CJS â nhw, neu a gafodd effaith arbennig o ddinistriol ar ddioddefwyr, naill ai oherwydd natur y trosedd neu lle mae'r dioddefwr neu'r tyst yn agored i niwed. Gyda'r fath droseddau, rhaid i ni ystyried yn genedlaethol sut mae'r CJS yn ymateb, a gweithredu i wella perfformiad lle bo angen.

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn edrych ar sut allwn ymateb yn fwy effeithiol i dri throsedd o'r fath:

- trais yn erbyn merched a genethod, a cham-drin plant yn rhywiol;
- troseddau casineb; a
- troseddau gynnau a chyllyll.

## Delio gyda thrais yn erbyn merched a genethod a cham-drin plant yn rhywiol

Mae trais rhywiol yn erbyn merched a phlant yn drosedd arbennig o ffiaidd ac wedi treiddio'n ddwfn i ymwybyddiaeth y cyhoedd yn sgîl y sgandalau yn achos Jimmy Savile, Rochdale a Rhydychen.

Yn y deng mlynedd diwethaf, mae asiantaethau'r CJS wedi gwella'r ffordd y maent yn ymchwilio i achosion troseddau rhywiol a thrais yn y cartref. Erbyn hyn mae gan lawer o heddluoedd unedau arbenigol i ddelio gyda throseddau rhywiol ac achosion trais yn y cartref, a swyddogion wedi eu hyfforddi'n arbennig. Mae'r CPS wedi cyflwyno erlynwyr treisio

arbenigol, Unedau Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol arbenigol, ac wedi sefydlu rhwydwaith o gydgysylltwyr treisio a cham-drin rhywiol yn erbyn plant. Mae'r HMCTS wedi sefydlu rhwydwaith o lysoedd arbenigol trais yn y cartref i wella'r ymateb aml-asiantaeth i'r trosedd hwn.

Fodd bynnag, mae achosion proffil uchel diweddar, yn enwedig yn ymwneud ag ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol, yn dangos bod angen i ni wneud mwy i ddelio â'r troseddau erchyll hyn. Gwyddom fod lefel drwblus o dan-ryportio treisio ac ymosodiadau rhywiol; amcangyfrif mai dim ond 15% o ferched sy'n ryportio'r trosedd hwn i'r heddlu.[15] Gwyddom fod yr achosion hyn yn cymryd rhy hir yn y llys,[16] a bod cael dioddefwyr a thystion i ymgysylltu â'r system yn dal i fod yn broblem, gyda 12% o erlyniadau treisio aflwyddiannus yn cael eu priodoli i drafferthion dioddefwyr (tynnu'r cyhuddiad yn ôl, dim yn mynychu'r llys a phroblemau diffyg ymgysylltu eraill). Mae'r ffigur hwn yn codi i 46% ar gyfer achosion trais yn y cartref.[17] Yn amlwg rhaid i ni wneud mwy i helpu dioddefwyr i wthio'r achosion hyn drwy ein llysoedd.

Fel ymateb, mae rhaglen waith sylweddol eisoes ar y gweill ar draws llywodraeth. Ar 11 Mehefin 2013, lansiodd y Coleg Plismona a'r Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus ganllawiau sy'n nodi'n glir beth allwn ei ddisgwyl gan heddluoedd ac erlynwyr sy'n gyfrifol am achosion lle cyflawnwyd trosedd rhywiol yn erbyn plentyn neu berson ifanc. Ymgynghorir gyda'r cyhoedd ar y ddwy set o ganllawiau tan 3 Medi 2013.

Yn ogystal â'r ddogfen traws-Lywodraethol *A Call to End Violence Against Women and Girls Action Plan 2013*, mae rhaglenni diweddar yn cynnwys dull cytûn ar gyfer ymchwilio i ac erlyn troseddau rhywiol yn erbyn plant, sefydlu panel cenedlaethol i adolygu honiadau blaenorol o gam-drin rhywiol lle na wnaeth yr heddlu na'r CPS weithredu ac nid oedd y sawl a gwynodd yn fodlon â'r ymateb, a sefydlu Grŵp Cenedlaethol i ddelio gyda thrais rhywiol yn erbyn plant a phobl agored i niwed. Rydym hefyd wedi rhoi ein henw i'r Gyfarwyddeb Ewropeaidd ar drechu ecsbloetio a cham-drin plant yn rhywiol a phornograffi plant ac yn gweithio i greu sylfaen dystiolaeth well i ddeall sut mae'r CJS yn perfformio mewn achosion masnachu plant ar hyn o bryd.

Rôl benodol y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol fydd sicrhau bod y CJS yn ymateb yn well i'r troseddau hyn o'r dechrau i'r diwedd. I sicrhau hyn, byddwn yn:

- dadansoddi profiad dioddefwyr trais rhywiol o'u cyswllt gyda'r CJS. Byddwn yn gweithio ar hyn gyda grwpiau cymorth treisio a rhanddeiliaid eraill ac yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir i greu sylfaen dystiolaeth. Bydd hyn yn goleuo gwelliannau i ymateb y CJS sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr;
- defnyddio'r gwaith a ddisgrifir uchod, a'r adolygiadau eraill o'r modd yr ymchwilir i ac yr erlynir troseddau rhywiol, i nodi beth arall sydd angen ei wneud i wella ymateb y CJS i'r troseddau hyn drwy'r Grŵp Cenedlaethol ar Drais Rhywiol Yn Erbyn Plant a Phobl Agored i Niwed;

---

[15] Seiliedig ar ddata o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr (CSEW): ymatebwyr rhwng 16 a 59 oed. *An Overview of Sexual Offending in England and Wales*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, y Swyddfa Gartref a'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Ionawr 2013

[16] Yn Chwarter 4 2012, cymrodd droseddau rhywiol 175 diwrnod ar gyfartaledd o bryd y cawsant eu rhestru gyntaf hyd at eu cwblhau – hirach nag unrhyw gategori troseddau arall. *Court Statistics Quarterly January to March 2013*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Mehefin 2013

[17] Data 2011-12 *Violence Against Women and Girls Crime Report,* Gwasanaeth Erlyn y Goron, Hydref 2012

- ystyried yr ymateb a gafwyd yn dilyn ymgynghori ar y Cod Dioddefwyr diwygiedig ar y cynigion bod asiantaethau'r CJS yn darparu gwasanaeth estynedig i ddioddefwyr trais rhywiol, trais yn y cartref a masnachu mewn pobl (a hefyd i rai o dan 18 oed);
- gwella cysondeb a'r defnydd a wneir o fesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a bygythiadau;
- treialu Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n caniatáu i dyst agored i niwed gael ei groesholi drwy recordio ymlaen llaw;
- adolygu'r ffordd y mae dioddefwyr a gefnogir gan wasanaethau (o dan y trefniadau comisiynu cenedlaethol newydd i ddod) yn cael gwybod am eu hawliau a'u disgwyliadau o'r CJS;
- ystyried a ellid defnyddio rheithwyr ychwanegol neu wrth gefn yn yr achosion hyn, yn lle unrhyw reithwyr a ollyngwyd yn ystod y treial, er mwyn lleihau'r risg o orfod stopio ac ail-gychwyn achos; ac
- adolygu sut allwn leihau'r trallod a achosir i rai dioddefwyr wrth gael eu croesholi, yn enwedig lle mae gan yr amddiffyniad nifer o fargyfreithwyr;

## Mynd i'r afael â throseddau casineb

Gall troseddau sy'n targedu nodwedd benodol gan ddioddefwr, p'un ai'n hil, ffydd, tueddiad rhywiol, hunaniaeth o ran rhywedd, anabledd neu unrhyw beth arall, gael effaith ddinistriol iawn ar y dioddefwr, eu teulu ac ar y gymuned ehangach.

Mae gwelliannau cadarnhaol wedi bod o ran ymchwilio i ac erlyn y troseddau hyn yn y blynyddoedd diwethaf wrth i asiantaethau'r CJS ddod yn well am adnabod ac ymateb i'r gwahanol fathau o droseddau casineb. Rhwng 2006/07 a 2011/12, gwelsom nifer yr erlyniadau llwyddiannus gan y CPS ar gyfer pob math o droseddau casineb, yn cynyddu o tua 9,600 (77%) i tua 12,000 (83%).[18] Ond er hyn ac er ein bod yn deall mwy am y trosedd hwn, gan gynnwys ei achosion a'i ddioddefwyr, mae llawer mwy y gallwn ei wneud.

Mae'r DU bellach yn arwain y byd o ran sut y mae'n ymateb i droseddau casineb. Dangosodd ymrwymiad yn *Y Rhaglen Lywodraethu* gan y Llywodraeth, i gofnodi troseddau casineb yn well, pa mor bwysig yw dileu'r troseddau ffiaidd hyn i'r Llywodraeth. Roedd cynllun gweithredu'r Llywodraeth *Challenge it, Report it, Stop it*[19] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2012, yn gam mawr ymlaen o ran nodi'n glir sut mae'r Llywodraeth yn bwriadu perfformio'n well ym mhob cam o'r broses cyfiawnder troseddol, a bwriadwn gyhoeddi fersiwn wedi'i ddiweddaru erbyn yr hydref.

Heb os mae cynnydd sylweddol wedi'i wneud, gyda dedfrydau mwy llym i droseddwyr a mwy o warchodaeth i ddioddefwyr, ond credwn y gallwn wneud mwy drwy:

- gasglu mwy o dystiolaeth ar sut mae'r CJS yn ymateb i droseddau casineb ar draws y wlad ar hyn o bryd. Gwnawn hyn drwy asesu sut y deliwyd â throseddau casineb at anabledd mewn 11 o ardaloedd heddlu. Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r llysoedd i wella ein gwybodaeth o'r defnydd a wneir o ddedfrydau estynedig;
- sicrhau bod y CJS yn ymateb yn effeithiol o bersbectif dioddefwyr a thystion troseddau casineb. Byddwn yn asesu'r sgôp ar gyfer cynnig atebion eraill fel ymateb i droseddau

---

[18] *Hate Crime and Crimes Against Older People 2011-2012,* Gwasanaeth Erlyn y Goron, Hydref 2012

[19] *Challenge it, Report it, Stop it*: *The Government's Plan to Tackle Hate Crime*, Llywodraeth EM, Mawrth 2012

casineb llai difrifol; ac yn ystyried yr ymateb i'r ymgynghori ar ymestyn yr hawliau estynedig yn y Cod Dioddefwyr i rai a ddioddefodd droseddau casineb;

- drwy ddelio'n fwy effeithiol â mathau penodol o droseddau casineb. Byddwn yn ystyried sut i weithredu argymhellion diweddar yr Adroddiad ar y Cyd-Arolygiad o droseddau casineb at anabledd ac yn ystyried argymhellion adolygiad Comisiwn y Gyfraith *Hate Crime: review of aggravated offences and stirring up hatred offences*; a
- drwy weithio gyda'r Coleg Plismona i adolygu ei ymateb canolog i droseddau casineb ar y We.

## Mynd i'r afael â throseddau gynnau a chyllyll

Mae troseddau gynnau a chyllyll ymhlith y rhai mwyaf difrifol ar ein strydoedd. Gwyddom fod gan gyfran helaeth o'r troseddau hyn gysylltiad â gangiau, gyda'r Heddlu Metropolitan yn tybio bod hanner yr holl achosion saethu yn Llundain yn gysylltiedig â gangiau. Mae'r troseddau hyn yn aml yn symptomatig o broblemau dyfnach yn y gymuned, ac mae delio â nhw'n disgyn ar ysgwyddau rhai heblaw'r CJS. Mae strategaeth y Llywodraeth, *Ending Gang and Youth Violence,*[20] yn adlewyrchu hyn drwy gynnwys ystod eang o fesurau i ddelio â'r broblem gangiau a thrais gan bobl ifanc: o'r ymyriadau cynharaf i adnabod a chefnogi rhieni 'risg' penodedig, cynlluniau atal ac ailsefydlu.

Ochr yn ochr â'r mesurau hyn, mae troseddau newydd mwy llym a newidiadau i'r fframwaith dedfrydu wedi eu cyflwyno. Ers 2011, cyflwynodd y Llywodraeth waharddebau gang i rai rhwng 14 a 17 oed, troseddau newydd am 'fygwth ag eitem gyda llafn neu bwynt neu arf ymosodol, yn gyhoeddus neu ar dir ysgol' a dedfryd orfodol o garchar am oes i rai y ceir hwynt yn euog o ail drosedd rhywiol neu dreisgar difrifol. Rydym wedi cyhoeddi y bwriadwn greu trosedd gynnau newydd am 'fod ym meddiant gyda'r bwriad i gyflenwi' gyda'r ddedfryd hiraf o garchar am oes, a hefyd yn sicrhau bod y ddedfryd hiraf am fewnforio gynnau'n anghyfreithlon yn gyson â hyn.

Rydym am adeiladu ar y gwaith ymyrryd cynnar a wneir ar un llaw, a'r gyfundrefn ailsefydlu a dedfrydu lem ar y llaw arall, drwy sicrhau unwaith y bydd trosedd wedi'i gyflawni, bod y dioddefwyr a'r tystion yn cael eu cefnogi a'u gwarchod drwy'r broses gyfan. Y mesurau yn y cynllun hwn i wneud y system yn fwy effeithlon, ac i wella'r cymorth a roddir i ddioddefwyr a thystion sy'n agored i niwed a bygythiadau, yw'r ffordd fwyaf effeithiol o wella perfformiad. Er enghraifft, bydd camau i wella gweithrediad y mesurau arbennig yn effeithio'n bositif ar rai sy'n agored i niwed a bygythiadau a ddioddefodd droseddau gynnau a chyllyll. Rydym wedi cynnwys dioddefwyr sy'n agored i niwed a bygythiadau fel un o'r tri chategori dioddefwyr sy'n gymwys i dderbyn hawliau estynedig o dan y Cod Dioddefwyr newydd.

Byddwn yn:

- annog mwy o ddefnydd o ddatganiadau effaith ar y gymuned, lle gellir cyflwyno gwybodaeth berthnasol ychwanegol am effaith y trosedd ar y gymuned leol i oleuo'r penderfyniad dedfrydu. Mae'r heddlu, y CPS a'r llysoedd wedi dweud bod y rhain yn effeithiol i roi gwybodaeth i'r llys am effaith troseddau gynnau ar y gymuned ac ar wasanaethau lleol;
- ystyried sut allwn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n well rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol er mwyn gallu rhoi mesurau diogelwch priodol yn eu lle i reoli aelodau o gangiau a throseddwyr treisgar yn y llys; ac
- ystyried a allwn a sut y gallwn brosesu troseddau gynnau'n well, gan edrych ar nifer o resymau posibl dros yr oedi, gan gynnwys rhai fforensig.

---

[20] *Ending Gang and Youth Violence: a Cross government Report*, Llywodraeth EM, Tachwedd 2011

## Sicrhau bod ein hymateb i droseddu'n deg a chyfiawn

Rhaid i ymateb y CJS i droseddu fod yn deg a chyfiawn. Mae hyn yn greiddiol i gynnal ffydd y cyhoedd ynom ac i sicrhau bod y system yn parhau i fod yn gyfreithlon. Mae ein nod yn glir, sef sicrhau ym mhob cam o'r CJS:

- y gwneir penderfyniadau ar sail y ffeithiau a'r dystiolaeth sydd ar gael yn unig, a'u bod er budd i'r cyhoedd; a bod
- bod pob unigolyn yn cael ei drin yn deg a pharchus ym mhob un cyswllt gyda'r CJS, beth bynnag yw eu nodweddion personol a / neu gefndir cymdeithasol.

Ond ni allwn fod yn sicr bod hyn bob amser yn digwydd ar hyn o bryd. Un maes lle gwelwn bryder cynyddol o fewn y CJS yw'r ffaith bod grwpiau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME) wedi eu gorgynrychioli. Er enghraifft, mae'r adroddiad yn 2010 *Statistics on Race and the Criminal Justice System* yn awgrymu, o'i gymharu â'u cynrychiolaeth yn y boblogaeth yn gyffredinol yng Nghymru a Lloegr, bod rhai grwpiau BAME yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr troseddau,[21] yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio,[22] yn fwy tebygol o gael eu harestio[23] ac, mewn rhai achosion, yn fwy tebygol o dderbyn dedfryd o garchar.[24] Ar hyn o bryd, nid ydym yn llwyr ddeall i ba raddau y mae ffactorau eraill efallai'n gyfrifol am hyn, fel demograffeg yr ardal a'r bobl, a nodweddion y trosedd a'r troseddwr. Mae felly'n faes y dylem weithio i'w ddeall yn well a gwneud rhywbeth yn ei gylch.

Nid yw'n broblem newydd i'r CJS, a gwelsom gynnydd o ran gwella anghydraddoldeb hiliol drwy rannu data'n well gydag asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol a sicrhau bod ystadegau'r CJS yn fwy tryloyw. Fodd bynnag, mae ffocws blaenorol ar dargedau wedi golygu bod yr ymdrechion hynny'n aml wedi cael y canlyniad difwriad o greu haenau ychwanegol o fiwrocratiaeth, yn enwedig yn lleol, heb roi sylw i'r problemau sylfaenol.

Rydym hefyd wedi gwneud cynnydd da o ran gwella gwasanaethau i ferched sy'n troseddu, ar ôl i'r Llywodraeth gydnabod bod angen dull rhyw-benodol. Erbyn hyn darperir gwasanaethau estynedig i ateb yr anghenion penodol sydd gan ferched sy'n troseddu, gan gynnwys problemau cyffuriau ac alcohol, iechyd meddwl, cam-drin a thrais yn y cartref. Ar 22 Mawrth 2013 cyhoeddodd y Llywodraeth ei blaenoriaethau allweddol ar gyfer merched sy'n troseddu a bydd Bwrdd Cynghori newydd ar ferched sy'n troseddu'n darparu cymorth ar gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Bydd wedi'i gadeirio gan Helen Grant, y gweinidog sy'n gyfrifol am ferched yn y system gyfiawnder.

O ran troseddwyr, nod y Llywodraeth yw datblygu a gweithredu gwasanaethau cyswllt a dargyfeirio ym mhob gorsaf heddlu a llys yn Lloegr. Bydd y gwasanaethau hyn yn adnabod

---

[21] Roedd oedolion o grwpiau BME yn fwy tebygol o ddioddef o droseddau personol yn 2010/11 – 8% o oedolion du o'i gymharu â 6% o oedolion gwyn, yn ôl data'r arolwg CSEW. *Statistics on Race and the Criminal Justice System*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Hydref 2011

[22] Roedd pobl ddu, Asiaidd a hil gymysg yn fwy tebygol na phobl wyn o gael eu stopio a'u chwilio, o'i gymharu â'r gyfran o'r bobl hyn yn y boblogaeth yn gyffredinol, 2006/07 hyd at 2009/10. Yn 2009/10, cafodd bobl o'r grwpiau hyn eu stopio a'u chwilio 7.0, 2.2 a 2.8 gwaith (yn yr un drefn) yn fwy na phobl wyn. *Statistics on Race and the Criminal Justice System*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Hydref 2011

[23] Roedd y gyfradd arestio am bob mil o'r boblogaeth yn uwch ar gyfer pobl ddu, Asiaidd a hil gymysg (84, 29 a 59 yn yr un drefn) nag ar gyfer pobl wyn (26). *Statistics on Race and the Criminal Justice System*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Hydref 2011

[24] Dedfrydwyd canran uwch o bobl mewn grwpiau BME i garchar ar unwaith am droseddau ditiadwy na phobl wyn yn 2010 (Gwyn 23%, Du 27%, Asiaidd 29% ac Eraill 42%). Gallai hyn fod yn rhannol oherwydd ffactorau eraill fel sut oeddent yn pledio, neu oherwydd cymysgedd y troseddau. *Statistics on Race and the Criminal Justice System*, Y Weinyddiaeth Cyfiawnder, Hydref 2011

ac asesu troseddwyr er mwyn eu hatgyfeirio at y gwasanaethau iechyd meddwl, camddefnyddio cyffuriau ac anableddau dysgu priodol. Gellir hefyd defnyddio'r asesiad hwn i oleuo penderfyniadau a wneir yng ngwahanol gamau'r broses cyfiawnder troseddol, gan ddargyfeirio pobl i ffwrdd o'r broses ffurfiol, neu o'r carchar, lle bo hynny'n briodol. Fodd bynnag, mae llawer mwy o waith i'w wneud ac, felly, mae sicrhau cydraddoldeb yn flaenoriaeth i'r cynllun gweithredu hwn. Rydym yn awyddus i adeiladu ar waith blaenorol a pharhaus ar draws y CJS. Byddwn yn:

- sicrhau bod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn chwarae rôl flaenllaw mewn gyrru gwelliannau mewn perfformiad i sicrhau bod pawb sy'n dod i gysylltiad â'r CJS yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys edrych i weld pam fod rhai grwpiau wedi eu gorgynrychioli (yn enwedig rhai gyda nodweddion gwarchodedig e.e. hil neu ryw, fel a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) a, lle bydd tystiolaeth o anghydraddoldeb yn y CJS, byddwn yn rhoi cynllun yn ei le i fynd i'r afael â fo;
- sicrhau bod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn chwarae rôl flaenllaw mewn hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r CJS i sicrhau ei fod yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu'n well;
- cynnal nifer o ddigwyddiadau wedi eu harwain gan y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol i drafod a dadlau materion a phryderon cydraddoldeb ag ystod o randdeiliaid, yn enwedig y cyrff gwirfoddol hynny sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth; Bydd y rhain yn goleuo gwaith y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a datblygiad polisi ehangach; ac
- gweithio'n agosach â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau dull cydgysylltiedig o wella cydraddoldeb ar draws y systemau oedolion ac ieuenctid, gyda ffocws i ddechrau ar sicrhau mwy o gydraddoldeb hil;

Os yw'r cyhoedd am gael ffydd bod y system yn un deg a chyfiawn, mae angen iddynt weld hyn yn digwydd yn y ffordd y mae'r CJS yn delio gyda throseddu. O ran atebion y tu allan i'r llys, mae amheuaeth wedi bod ynghylch hyn weithiau. Er enghraifft, daeth HMIC i'r casgliad y dylid hysbysu'r cyhoedd yn well ynghylch pa mor effeithiol ydynt ac a ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd iawn am y rhesymau iawn. Byddai hyn yn helpu, meddai, i ddileu unrhyw deimlad o anghyfiawnder ynghylch gwahanol driniaeth mewn gwahanol ardaloedd.[25]

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi gweithredu i wella'r defnydd o atebion y tu allan i'r llys drwy weithredu newidiadau drwy Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012 a chryfhau'r canllawiau. Fodd bynnag, mae'r Llywodraeth hefyd yn poeni bod troseddau difrifol ac ail-droseddwyr weithiau'n cael eu cosbi drwy ateb y tu allan i'r llys a allai fod yn destun pryder i'r cyhoedd tra bod rhai achosion eraill, ar y llaw arall, yn dal i ddod i'r llys yn ddiangen. Bydd y Llywodraeth yn ystyried canlyniadau'r adolygiad o rybuddion syml ac a fydd angen cymryd camau pellach.

---

[25] *Stop the Drift*, HMIC, Tachwedd 2010

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu:**

- gwella cysondeb a'r defnydd o fesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a bygythiad – a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i adolygu'r cynnydd yn fuan yn 2014;
- treialu Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n caniatáu i dyst agored i niwed gael ei groesholi drwy recordio ymlaen llaw, mewn tri llys – Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Thames - gan ddechrau diwedd 2013;
- asesu sut y deliodd amrywiol heddluoedd â throseddau casineb at anabledd, erbyn Medi 2013;
- ailwampio datganiadau effaith ar y gymuned erbyn Ebrill 2014; a
- y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol i gynnal nifer o ddigwyddiadau gyda rhanddeiliaid ar gydraddoldeb o fewn y CJS, gan ddechrau yn yr hydref 2013.

## Gweithio mewn partneriaeth

**Crynodeb o'r prif gamau gweithredu:**

- cyfathrebu blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i bartneriaethau lleol a sicrhau bod y cysylltiad rhwng y lefel genedlaethol a lleol yn cael ei gryfhau erbyn Medi 2013; a
- cyflwyno dull mwy cyffredin ar draws y CJS o ddarparu hyfforddiant, amcanion a rheoli talentau staff, gan ddechrau ym mis Medi 2013.

Byddwn ond yn llwyddo i gyflawni ein cyd-ganlyniadau os bydd pob rhan o'r CJS yn cydweithio'n effeithiol.

Mae'n hollol iawn bod y fframwaith cyfiawnder troseddol cyffredinol, fel cyfraith droseddol, yn cael ei lunio'n genedlaethol. Wrth gyflwyno Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n glir i hyrwyddo cyfiawnder lleol. Cymunedau sydd wrth galon cyfiawnder troseddol a rhaid i ni wneud yn siŵr y gellir darparu cyfreithiau a blaenoriaethau cenedlaethol ar lefel leol – a bod blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu goleuo gan, ac y medrant ymateb i anghenion cymunedau lleol.

Mae'r tirlun cenedlaethol a lleol yn gymhleth, ac ar lefel genedlaethol rydym yn rhy aml wedi colli'r cyfle i gydweithredu, ac yn ei dro gwnaeth hyn bethau'n anoddach i bartneriaid lleol. Rhaid i ni gefnogi partneriaethau lleol, drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth er mwyn helpu a chefnogi eu gwaith cynllunio, a dileu'r rhwystrau i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth ar bob lefel.

Y dull newydd i sicrhau cydweithrediad cenedlaethol effeithiol yw'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol. Yn ogystal â goruchwylio cyflawni'r cynllun gweithredu hwn, mae gan y Bwrdd gyfle go iawn yn y dyfodol i sicrhau bod y gwaith o gynllunio adnoddau fel TG, adeiladau neu wasanaethau eraill sy'n cael eu caffael, yn cael eu hystyried o bersbectif y CJS gyfan. I gefnogi hyn, byddwn yn:

- defnyddio arweinyddiaeth y Bwrdd i roi sylw i rwystrau sy'n atal integreiddio ar hyn o bryd, gan glirio'r ffordd ar gyfer rhaglenni TG trawsnewidiol;
- datblygu dull tryloyw ar gyfer holl gontractau caffael y CJS i'r dyfodol, gan ddechrau gyda rhai'r Weinyddiaeth Cyfiawnder, i gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu; ac
- llunio meini prawf i asesu holl gontractau'r CJS yn eu herbyn gyda golwg ar nodi cyfleoedd cydgysylltu rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol, ac arbedion cost.

Rydym eisiau gweld cydweithredu mwy effeithiol *ar bob lefel* yn y CJS. Yn lleol, byddem yn hoffi gweld pob rhan o'r CJS yn dod at ei gilydd i gynllunio sut i gyflwyno gwelliannau, ynghyd â blaenoriaethau lleol, o dan y fframwaith hwn. Y llynedd roedd y papur gwyn *Swift and Sure Justice* yn tanlinellu barn y Llywodraeth bod gan bartneriaethau lleol rôl greiddiol i'w chwarae o ran hwyluso cydweithio yn y CJS. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ar lefel genedlaethol bod angen i ni ddiffinio'n gliriach beth a ddisgwylir bellach o bartneriaethau lleol.

Mae partneriaethau lleol wedi esblygu yn y blynyddoedd diwethaf – gyda rhai'n uno ag ardaloedd cyfagos tra bod eraill wedi newid eu rôl a'u ffocws. Rydym yn croesawu'r datblygiadau hyn ac yn pwyso ar yr asiantaethau cyfiawnder troseddol i barhau i feddwl sut orau i deilwrio eu trefniadau partneriaeth i gydfynd ag anghenion lleol.

Mae angen i'r trefniadau hyn addasu ymhellach yn dilyn ethol y Comisiynwyr Heddlu a Throseddu y llynedd – y newid mwyaf syfrdanol i'r tirlun lleol ers blynyddoedd. Mae gan y Comisiynwyr fandad i nodi a blaenoriaethu problemau troseddu yn eu hardaloedd drwy ymgynghori â'u cymunedau lleol. Mae ganddynt felly rôl hollbwysig i'w chwarae gyda sicrhau bod y CJS gyfan, ac asiantaethau eraill lleol, yn gweithio gyda'i gilydd i ddarparu cyfiawnder.

Mae partneriaethau lleol, hefyd, yn hynod bwysig i gyflawni dau o ymrwymiadau allweddol y Llywodraeth:

- gwella'r cymorth a roddir i ddioddefwyr – gyda'r Comisiynwyr i gomisiynu'r rhan fwyaf o'r cymorth ar lefel leol, gan sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn ymateb i anghenion dioddefwyr yn eu hardaloedd; a
- Trawsnewid Ailsefydlu – er mwyn diwygio troseddwyr ac amddiffyn y cyhoedd, mae arnom angen partneriaethau lleol i greu perthynas weithio adeiladol gyda'r darparwyr prawf newydd i hwyluso eu hintegreiddio'n effeithiol o fewn y system newydd.

Dylai'r partneriaethau CJS lleol oruchwylio'r broses gynllunio strategol yn lleol.  Mae'r trosolwg isod yn cynnig dull posibl o gynllunio, gyda'r wybodaeth y bydd partneriaethau lleol efallai am ei hystyried ar wahanol bwyntiau yn y cylch cynllunio.

| | |
|---|---|
| **Penderfynu** ar flaenoriaethau lleol → | • Wedi eu goleuo gan y cyd-ganlyniadau a gytunwyd arnynt gan bawb yn y CJS.<br>• Drwy gyfeirio at y cynllun heddlu a throseddu lleol sy'n nodi blaenoriaethau plismona'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a ddatblygwyd wedi ystyried blaenoriaethau asiantaethau cyfiawnder troseddol eraill. |
| **Cynllunio** gyda'n gilydd i gyflawni cyd-amcanion → | • Sicrhau bod yr asiantaethau cyfiawnder troseddol lleol yn cyd-ymgynghori i ystyried eu gwahanol gynlluniau ac i nodi materion sy'n gyffredin rhyngddynt.<br>• Cytuno ar ddyraniad adnoddau lle bo angen.<br>• Penderfynu pa asiantaethau sy'n atebol am ba rannau o gyflawni'r cyd-amcanion.<br>• Nodi ac ymgysylltu gyda phartneriaid strategol y tu allan i'r CJS (fel awdurdodau lleol ac iechyd).<br>• Sicrhau gwerth am arian a chwilio am gyfleoedd i fod yn fwy effeithlon (drwy rannu gwasanaethau, cyd-gomisiynu ayb).<br>• Ystyried cyfleoedd i gomisiynu gwasanaethau / gweithio mewn partneriaeth gyda'r sectorau preifat a gwirfoddol. |
| **Adolygu'r** cyflawni a'r perfformiad → | • Drwy ystyried blaenoriaethau perfformiad y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i benderfynu sut fydd llwyddiant yn cael ei farnu'n lleol (h.y. beth mae 'perfformiad da' yn edrych fel yn yr ardal leol).<br>• Sbarduno gwelliannau mewn perfformiad. |
| **Ymgysylltu** gyda'r gymuned leol → | • Ymgynghori gyda'r gymuned i oleuo blaenoriaethauac asesu pryderon.<br>• Cyfathrebu blaenoriaethau.<br>• Cyhoeddi data ar berfformiad. |

Mae angen cael cysylltiadau cryfach rhwng y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol a'r partneriaethau cyfiawnder troseddol lleol. Ond nid ydym am i'r cyfathrebu fod yn un ffordd yn unig. I greu'r cysylltiadau pwysig hyn, byddwn yn:

- cyfleu blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i'r partneriaethau lleol ac yn rhoi cyfrwng iddynt i fwydo'n ôl i'r Bwrdd;
- gweithio gydag ymarferwyr ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod pob rhan o'r CJS yn glir ynghylch eu rôl gyda chyflawni'r cyd-ganlyniadau;
- nodi arferion da i'w rhannu rhwng ardaloedd lleol, ac yn hybu ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth ar-lein, fel Ardal Wybodaeth Ar-lein yr Heddlu (POLKA) sy'n cael ei chynnal gan y Coleg Plismona;
- ystyried dulliau gwahanol o weithio'n lleol-genedlaethol i oleuo sut fyddwn yn gweithio yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws y system. Byddwn yn dechrau'r gwaith hwn gyda swyddfa Maer Llundain a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, i gytuno ar ymateb y CJS i ddwyn oddi ar y person yn y brif-ddinas; ac
- gwella cyd-weithio ar draws y CJS drwy roi pecyn at ei gilydd o opsiynau gweithlu ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyflwyno dull mwy cyffredin o hyfforddiant, amcanion a rheoli talentau staff.

## Atodiad: Crynodeb o'r camau gweithredu

Bydd y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yn atebol am gyflawni'r cynllun gweithredu hwn dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd yn cyhoeddi diweddariad i'r cynllun yn 2014.

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| | **CJS ddigidol** | | | |
| 1 | Cyflwyno rhaglen dreigl, ehangach o ddiwygiadau, i gyflwyno ffeil symlach ar gyfer pob math o drosedd, gan sicrhau bod y ffeil ddigidol symlach yn dod yn norm mewn achosion cyfiawnder troseddol. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>Coleg Plismona – Alex Marshall | Mehefin 2013 | Ebrill 2015 |
| 2 | Profi ffeil symlach a dull *app* ar gyfer achosion traffig a siop-ladrad. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>Coleg Plismona – Alex Marshall | Ar y gweill | Ebrill 2014 |
| 3 | Parhau i gymell yr amddiffyniad i ddefnyddio e-bost diogel fel y gall y CPS gyflwyno deunydd achos yn ddigidol, cyn i'r Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol ei gwneud yn ofynnol bod ymarferwyr amddiffyn yn cael a defnyddio e-bost diogel o fis Hydref 2014 ymlaen fel a ragnodir yn y contract cymorth cyfreithiol troseddol newydd. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Ar y gweill | Hydref 2014 |
| 4 | Darparu'n ddigidol yn ddiofyn mewn llysoedd barn yn Llys y Goron a'r llysoedd ynadon fel bo'r holl bartïon yn gallu gweithredu'n effeithiol heb ddefnyddio papur. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | 2014 – amodol ar gyllid | 2015/16 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 5 | Defnyddio mwy ar fideo ar draws y CJS drwy annog defnyddio cyfarpar fideo presennol a blaenoriaethu fideo ar gyfer cyswllt fideo rhwng y carchar a'r llys i osgoi gorfod symud diffynyddion i mewn ac allan o garchar. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>NOMS – Michael Spurr | Ar y gweill | Adolygu yn Ebrill 2014 |
| **CJS sy'n gynt ac yn iawn y tro cyntaf** | | | | |
| 6 | Yn dilyn adolygiad y farnwriaeth o ddatgelu mewn llysoedd ynadon, adolygu'r deunyddiau hyfforddiant a chyflwyno hyfforddiant gloywi lle bo angen, i wella arbenigedd wrth ddelio gyda datgelu. | Coleg Plismona – Alex Marshall<br>CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Dechrau yn Ionawr 2014 ar ôl derbyn canlyniad yr adolygiad datgelu | Dibynnu ar natur a faint o newidiadau a argymhellir yn yr adolygiad datgelu |
| 7 | O fis Ebrill 2013 ymlaen, dechreuodd y CPS ymdrin â'r holl geisiadau priodol am gyngor ar gyhuddiadau, 24 awr y dydd, saith diwrnod yr wythnos, drwy CPS Direct (gwasanaeth CPS sy'n delio'n llwyr â chyhuddiadau). Bydd y CPS yn gweithio i sicrhau bod y trefniadau newydd hyn yn hwyluso cyngor mwy cyson ar gyhuddiadau. | CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Byddwn yn monitro ansawdd y cyngor ar gyhuddiadau yn 2013 | Parhaus |
| 8 | a) Sefydlu a yw'r canllawiau a'r hyfforddiant presennol, ac ymwybyddiaeth o'r safonau ar baratoi a chreu ffeiliau cymesur a phrydlon, yn cwrdd â'r gofynion presennol.<br>b) Monitro a gwella ansawdd a chydymffurfio gyda'r gofynion hyn. | Coleg Plismona – Alex Marshall<br>CPS – Peter Lewis<br>HO – Stephen Rimmer | Ar y gweill | Parhaus |
| 9 | a) Sefydlu un llys traffig ym mhob ardal heddlu (ac edrych i weld a ellir canoli llysoedd traffig ymhellach, yn Llundain); a<br>b) Deddfu fel y gellir ymdrin gyda'r rhan fwyaf o achosion 'rheoleiddio' lefel isel, niferus y tu allan i'r llysoedd ynadon traddodiadol. | HMCTS – Peter Handcock<br>MoJ – Paul Kett | a) Ebrill 2014<br>b) Deddfu cyn gynted ag y bo amser Seneddol yn caniatáu | Cyn gynted ag y bo amser Seneddol yn caniatáu |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 10 | Annog mwy o erlyniadau gan yr heddlu ar gyfer troseddau traffig diwrthwynebiad a throseddau penodol eraill, ar ôl gwerthuso canlyniadau'r ardaloedd braenaru yn yr haf, gan leihau costau a throsglwyddiadau rhwng asiantaethau, a rhyddhau amser y CPS i ganolbwyntio ar achosion mwy difrifol a wrthwynebir. | HO – Stephen Rimmer | Ar y gweill | Rhagfyr 2013 |
| 11 | Cynyddu ymhellach nifer yr achosion y gall yr heddlu eu herlyn heb fod angen cynnwys y CPS, drwy ddeddfu i wneud siop-ladrad yn drosedd diannod yn unig lle mae'r nwyddau a ddwynir yn werth £200 neu lai. Byddai hyn yn golygu bod y mwyafrif llethol o achosion siop-ladrad yr ymdrinnir â nhw'n barod yn y llysoedd ynadon yn destun gweithdrefnau mwy effeithlon, er y byddai'r diffynnydd dal yn gallu dewis treial yn Llys y Goron. | MoJ – Paul Kett<br>HO – Stephen Rimmer | Os bydd amser Seneddol ar gael | Haf 2014, os bydd amser Seneddol ar gael |
| 12 | a) Sicrhau bod yr heddlu a'r CPS yn gwneud mwy i nodi, a pharatoi'n briodol, achosion lle disgwylir i'r diffynydd bledio'n euog; a<br>b) Sicrhau bod yr achosion hyn yn cael eu blaenoriaethu i'w paratoi'n fuan a, lle bo'n bosibl, ar gyfer gwrandawiad buan. | Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock | Ar y gweill | Ebrill 2014 |
| 13 | Sicrhau bod mwy o wrandawiadau'n symud ymlaen ar ddiwrnod eu rhestru drwy ganolbwyntio adnoddau ar wneud y gwrandawiad cyntaf mor effeithiol â phosibl mewn achosion sy'n debygol o fynd i dreial. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock | Medi 2013 | Ebrill 2014 |
| 14 | Sefydlu gweithgor i roi arweiniad ar gymhwyso'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol mewn achosion diannod, gyda golwg ar wneud paratoi'n symlach a mwy cymesur. | CPS – Peter Lewis<br>MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Rhagfyr 2013 |
| 15 | Cefnogi'r Uwch Farnwr Rhanbarth (Prif Ynad) a'r Anrhydeddus Farnwr Kinch QC yn eu hadolygiad o'r rheolau ar ddatgelu mewn llysoedd ynadon i sicrhau eu bod yn gymesur ac effeithiol. | MoJ – Paul Kett<br>CPS – Peter Lewis | Gorff 2013 | Adolygiad i'w gwblhau erbyn Rhagfyr 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 16 | Gwneud defnydd gwell o erlynwyr asiantaeth mewn llysoedd ynadon drwy sicrhau y medrant gymryd ac erlyn achosion 'sigledig' ac ôl-achosion pan fydd yr achosion a ddyranwyd iddynt naill ai'n cael eu hildio, eu gohirio neu'n gorffen yn gynt ar y diwrnod. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Gorff 2013 | Hydref 2013 |
| 17 | Mae pob aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi ymrwymo i gefnogi'r newydd-wedd ar raglen Atal Oedi mewn Cyfiawnder y farnwriaeth. Bydd gweithgor yn cael ei sefydlu – yn adrodd i'r Uwch Farnwr Llywyddol - i ddarparu pecyn cynhwysfawr o weithredu, disgwyliadau a chanllawiau ar gyfer asiantaethau'r CJS, ymarferwyr amddiffyn ac ynadon, ac yn sicrhau bod ei ddarparu'n flaenoriaeth leol. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock | Gorff 2013 | Rhagfyr 2013 |
| 18 | Mae pob aelod o'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol wedi ymrwymo i sicrhau bod y cynllun Ple Euog Cynnar yn llwyddo. | CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>HMCTS – Peter Handcock | Parhaus | Parhaus |
| 19 | Gweithredu i gefnogi gweithrediad y rhaglen Rheoli Achosion:<br>Datblygu trefniadau fel bo'r CPS a'r amddiffyniad yn adolygu'r ple'n ffurfiol ym mhob achos, gan gynnwys rhai nad ydynt yn gymwys ar gyfer y Cynllun Ple Euog Cynnar.<br>Cyflwyno cyfres syml o feini prawf i erlynwyr eu defnyddio i nodi'r math o achos lle gallai amserlen fod yn briodol, a lle bo hynny'n briodol, gwneud cais am hynny a chyflwyno drafft cytunedig i'r Gwrandawiad Ple a Rheoli Achos.<br>Adolygu'r rhesymau dros ddiffyg cydymffurfio gyda'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol, y Cyfarwyddiadau Ymarfer a'r Nodiadau Cyfarwyddyd Ymarfer lleol mewn achosion Llys y Goron, a gweithredu i wella perfformiad. | CPS – Peter Lewis | Gorff 2013 | Rhagfyr 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 20 | Ar gyfer yr is-set o achosion trwm-ar-bapur, byddwn yn goruchwylio gweithrediad yr argymhellion a wnaed yn sgîl adolygiad datgelu'r Uwch Farnwr Llywyddol i sicrhau datgelu mwy penodol mewn achosion sy'n drwm ar ddogfennau. Bydd yr Uwch Farnwr Llywyddol yn profi dull wedi'i deilwrio mewn pedair canolfan llys (Birmingham, Manchester Crown Square, Kingston upon Thames, a Southwark) cyn ei gyflwyno i'r llysoedd i gyd. | CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Canolfannau peilot yn dechrau ym Mehefin 2013 | Gweithredu o ganol 2014 ymlaen |
| 21 | Nodi, diwygio ac yna monitro cydymffurfio gyda'r Rheolau ar Drefniadaeth Droseddol, Cyfarwyddiadau Ymarfer, a gorchmynion barnwyr, drwy:<br>a) Gweithio ag ardaloedd lleol dros weddill y flwyddyn i nodi, a lle gallwn, rhoi sylw i'r rhesymau pam nad yw'r Rheolau Trefniadaeth Droseddol a'r Cyfarwyddiadau Ymarfer yn cael eu dilyn mewn achosion Llys y Goron ac yn y llysoedd ynadon;<br>b) Nodi unrhyw rwystrau i gydymffurfio na ellir eu goresgyn drwy newid canllawiau, diwylliant neu arferion, a gweithio gyda'r Pwyllgor Rheolau Trefniadaeth Droseddol i symleiddio trefniadaeth droseddol lle bo hynny'n berthnasol; a<br>c) Casglu'r data sylfaenol ar gydymffurfio lle gallwn, a chyflwyno'r mesurau priodol i fonitro pa mor dda y mae'r CPS a'r amddiffyniad yn cydymffurfio. (Er enghraifft, mae'r CPS wedi cyflwyno lefel ddisgwyliedig ar gyfer ardaloedd o ran cydymffurfio â gorchmynion barnwyr yn Llys y Goron, sef o leiaf 75% yn 2013/14, i godi mae'n debyg i 90% yn 2014/15.) | MoJ – Paul Kett<br>CPS – Peter Lewis | a) Gorff 2013<br>b) Ionawr 2014<br>c) Gorff 2013 | a) Rhagfyr 2013<br>a) Rhagfyr 2014<br>c) Rhagfyr 2013 |
| 22 | Sicrhau bod y data hwn ar gydymffurfio ar gael i ymarferwyr y CJS fel bod unigolion yn gallu gweld a deall effaith eu perfformiad, a rhyddhau data lleol i'r cyhoedd fel y gellir dal y CJS i gyfrif. | CPS – Peter Lewis<br>MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Ebrill 2014 |
| 23 | Gweithio gyda'r gymuned amddiffyn ar sut orau i baratoi diffynydd ar gyfer gwrandawiad cyntaf, gan gynnwys sut i wneud cyfreithwyr dyletswydd yn fwy effeithiol. | MoJ – Paul Kett<br>CPS – Peter Lewis | Gorff 2013 | Rhagfyr 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| **CJS dryloyw ac ymatebol** | | | | |
| 24 | Cyhoeddi mwy o ddata ar berfformiad, gwariant a blaenoriaethau'r CJS fel bod y cyhoedd yn gallu deall y gwasanaeth cyfiawnder troseddol yn eu hardal yn well, a sut mae'n cymharu ag eraill – gan ddechrau gyda mwy o wybodaeth am brydlondeb achosion ar police.uk; | MoJ – Paul Kett<br>HO – Stephen Rimmer | Ar y gweill | Cyhoeddi gwybodaeth am brydlondeb achosion erbyn Hydref 2013. Gwelliannau pellach erbyn y gwanwyn 2014. |
| 25 | Gweithio gyda phartneriaethau lleol i helpu i sefydlu pa wybodaeth sydd ei angen arnynt i gynllunio a monitro perfformiad yn effeithiol. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Rhagfyr 2013 |
| 26 | Rhoi'r wybodaeth iawn i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol, a gweithio gyda nhw i gysoni mesurau perfformiad ar draws y CJS fel y medrant fonitro'r cynnydd gyda chyflawni cyd-ganlyniadau'r CJS a'i gwneud yn fwy effeithlon ac effeithiol. | MoJ – Paul Kett | Haf 2013 | Parhaus – diweddaru yng nghyfarfodydd rheolaidd y Bwrdd |
| 27 | Ymchwilio i ddulliau effeithiol o rannu data ar ba mor fodlon yw defnyddwyr i sicrhau bod y ffordd y darperir gwasanaethau'n gwella. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Diwedd 2013 |
| **Gofal ac ystyriaeth o ddioddefwyr a thystion** | | | | |
| 28 | Sicrhau bod y tystion sydd fwyaf mewn perygl o newid eu meddwl ynghylch dod i'r llys yn cael eu cefnogi'n effeithiol drwy adolygu'r trefniadau presennol ac, yn amodol ar beth fydd y darganfyddiadau, ystyried cyflwyno proses rheoli risg i dargedu'r bobl hynny. | MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Rhagfyr 2013 |
| 29 | Ei gwneud yn haws i dystion, gan gynnwys tystion arbenigol a phlismyn, roi tystiolaeth drwy gyswllt fideo. | CPS – Peter Lewis<br>HMCTS – Peter Handcock<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Gorff 2013 | Adolygu cynnydd erbyn haf 2014 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 30 | Datblygu Gwasanaeth Tystion effeithiol yn y llys, wedi'i gomisiynu'n genedlaethol, sy'n gweithio'n agos â'r Unedau Gofal Tystion i ddarparu'r safonau gofynnol ar driniaeth, darparu gwybodaeth a chymorth cyn ac yn ystod yr achos llys. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Gwasanaeth newydd i ddechrau Hydref 2014 |
| 31 | Edrych i weld sut allwn ddarparu gwybodaeth well i ddioddefwyr am y CJS ac am gynnydd eu hachos, gan adeiladu ar y wybodaeth sydd eisoes ar gael ar police.uk, a sut allwn ymestyn y system *Track My Crime* lwyddiannus sydd gan Heddlu Avon a Somerset. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Medi 2013 |
| 32 | Gweithio gyda'r Comisiynydd Dioddefwyr, y Farwnes Newlove, i sicrhau bod y trefniadau i roi gwybod i ddioddefwyr pan fydd troseddwr ar fin cael ei ryddhau o'r carchar yn cwrdd orau ag anghenion dioddefwyr. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Haf 2013 |
| 33 | Gwella'r dulliau adborth, cwyno a gwneud iawn â dioddefwyr drwy gynnwys proses gwyno well yn y Cod Dioddefwyr diwygiedig, fel bod dioddefwyr yn gwybod gyda phwy i gysylltu a beth i'w ddisgwyl os bydd pethau'n mynd o'i le. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Awst 2013 |
| 34 | Ystyried yr achos dros gael ombwdsman cwynion annibynnol ar gyfer y CJS gyfan i ymchwilio i ac adrodd ar gwynion gan ddioddefwyr, naill ai'n lleol neu'n genedlaethol. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Awst 2013 |
| 35 | Cynyddu gwneud iawn ystyrlon â dioddefwyr drwy sefydlu beth sy'n gweithio i'w helpu i ymdopi a dod dros eu profiad, a nodi sut fyddwn yn gweithio tuag at hyn. | MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Y Bwrdd i adolygu cynnydd a nodi gweithredu pellach, Haf 2014 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb yn iawn i droseddu** | | | | |
| 36 | Dadansoddi profiad dioddefwyr trais rhywiol o'u cyswllt gyda'r CJS. Byddwn yn gweithio ar hyn gyda grwpiau cymorth treisio a rhanddeiliaid eraill ac yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn i greu sylfaen dystiolaeth. Bydd hyn yn goleuo gwelliannau i ymateb y CJS sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr. | HO – Stephen Rimmer | Gorff 2013 | Hydref 2013 |
| 37 | Defnyddio'r gwaith a ddisgrifir o dan Gam Gweithredu 36, a'r adolygiadau eraill o'r modd yr ymchwilir i ac yr erlynir troseddau rhywiol, i nodi beth arall sydd angen ei wneud i wella ymateb y CJS i'r troseddau hyn. | MoJ – Paul Kett | Hydref 2013 | Tachwedd 2013 |
| 38 | Ystyried yr ymateb a gafwyd yn dilyn ymgynghori ar y Cod Dioddefwyr diwygiedig ar y cynigion bod asiantaethau'r CJS yn darparu gwasanaeth estynedig i ddioddefwyr trais rhywiol, trais yn y cartref a masnachu mewn pobl (a hefyd i rai o dan 18 oed). | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Haf 2013 |
| 39 | Gwella cysondeb a'r defnydd a wneir o fesurau arbennig ar gyfer tystion sy'n agored i niwed a bygythiadau. | MoJ – Paul Kett<br>CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Ar y gweill | Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i adolygu cynnydd yn fuan yn 2014 |
| 40 | Treialu Adran 28 Deddf Cyfiawnder Ieuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999, sy'n caniatáu i dyst agored i niwed gael ei groesholi drwy recordio ymlaen llaw, mewn tri llys – Leeds, Lerpwl a Kingston-upon-Thames – i ddechrau diwedd 2013. | MoJ – Paul Kett | Diwedd 2013 | Y peilot i redeg am 6 mis |
| 41 | Adolygu'r ffordd y mae dioddefwyr a gefnogir gan wasanaethau (o dan y trefniadau comisiynu cenedlaethol newydd i ddod) yn cael gwybod am eu hawliau a'u disgwyliadau o'r CJS. | MoJ – Paul Kett | Hydref 2013 | Yn fuan yn 2014 |
| 42 | Ystyried a ellid defnyddio rheithwyr ychwanegol neu wrth gefn yn yr achosion hyn, yn lle unrhyw reithwyr a ollyngwyd yn ystod y treial, er mwyn lleihau'r risg o orfod stopio ac ail-gychwyn achos. | MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Tachwedd 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 43 | Adolygu sut allwn leihau'r trallod a achosir i rai dioddefwyr wrth gael eu croes-holi, yn enwedig lle mae gan yr amddiffyniad nifer o far-gyfreithwyr. | MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Hydref 2013 |
| 44 | Asesu sut y deliwyd â throseddau casineb at anabledd mewn 11 o ardaloedd heddlu. | CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Ar y gweill | Medi 2013 |
| 45 | Gweithio gyda'r llysoedd i wella ein gwybodaeth o'r defnydd a wneir o ddedfrydau estynedig ar gyfer troseddau casineb. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Cynnydd ac opsiynau i'w hystyried erbyn Tach 2013 |
| 46 | Ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad ar ymestyn hawliau, o dan y Cod Dioddefwyr, i ddioddefwyr troseddau casineb. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Haf 2013 |
| 47 | Ystyried argymhellion yr adolygiad gan Gomisiwn y Gyfraith, 'Hate Crime: review of aggravated offences and stirring up of hatred offences'. | MoJ – Paul Kett | Disgwyl adolygiad erbyn y gwanwyn 2014 | Parhaus |
| 48 | Bydd y Coleg Plismona yn adolygu ei ymateb canolog i droseddau casineb ar y We yn 2-13-14. | Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Adolygu Hydref 2013 | I'w ystyried gan ACPO yn fuan yn 2014 |
| 49 | Annog defnydd ehangach o ddatganiadau effaith ar y gymuned sydd, yn ôl yr heddlu, y CPS a'r llysoedd, yn effeithiol i roi gwybodaeth i'r llys am effaith troseddau gynnau ar y gymuned ac ar wasanaethau lleol. | MoJ – Paul Kett | Gorff 2013 | Ebrill 2014 |
| 50 | Ystyried sut i rannu gwybodaeth yn well fel y gellir rhoi mesurau diogelwch priodol yn eu lle i reoli aelodau o gangiau a throseddwyr treisgar yn y llys. | HMCTS – Peter Handcock<br>CPS – Peter Lewis<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre<br>NOMS – Michael Spurr | Gorff 2013 | Nodi unrhyw weithredu pellach sy'n ofynnol erbyn yr hydref 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 51 | Ystyried a allwn a sut y gallwn brosesu troseddau gynnau'n well, gan edrych ar nifer o resymau posibl dros yr oedi, gan gynnwys rhai fforensig. | CPS – Peter Lewis<br>HO – Stephen Rimmer<br>Aelod arweiniol plismona cenedlaethol – Chris Eyre | Gorff 2013 | Diwedd 2013 |
| 52 | Sicrhau bod y Bwrdd yn chwarae rôl flaenllaw mewn sbarduno gwelliannau perfformiad i sicrhau bod pawb sy'n dod i gysylltiad â'r CJS yn cael eu trin yn gyfartal. Bydd hyn yn cynnwys:<br>a) edrych ar brofiadau'r CJS a pham fod rhai grwpiau wedi eu gor-gynrychioli (yn enwedig rhai gyda nodweddion gwarchodedig (e.e. hil, rhyw) fel a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010); a<br>b) lle mae gennym dystiolaeth o anghydraddoldeb yn y CJS, rhoi cynllun yn ei le i fynd i'r afael â fo. | MoJ – Paul Kett | Hydref 2013 | Y Bwrdd i adolygu'r gwaith a wneir |
| 53 | Sicrhau bod y Bwrdd yn chwarae rôl flaenllaw mewn hyrwyddo amrywiaeth o fewn gweithlu'r CJS i sicrhau ei fod yn cynrychioli'r boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu'n well. Byddwn yn gwneud hyn drwy:<br>a) bod yn eiriolwr cryf dros amrywiaeth ar draws y CJS;<br>b) adolygu ystadegau ar y gweithlu a thystiolaeth arall i nodi rhwystrau i amrywiaeth a meysydd lle mae angen gwella; a<br>c) gweithredu i fynd i'r afael â than-gynrychiolaeth ar bob lefel ar draws y CJS. | MoJ – Paul Kett | Hydref 2013 | Y Bwrdd i adolygu'r gwaith a wneir |
| 54 | Cynnal nifer o ddigwyddiadau wedi eu harwain gan y Gweinidog dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol i drafod a dadlau materion a phryderon cydraddoldeb ag ystod o randdeiliaid, yn enwedig y cyrff gwirfoddol hynny sy'n cynrychioli defnyddwyr gwasanaeth. Bydd y rhain yn goleuo gwaith y Bwrdd a datblygiad polisi ehangach. | MoJ – Paul Kett | Hydref 2013 | Tachwedd 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 55 | Gweithio'n agosach â'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sicrhau dull cydgysylltiedig o wella cydraddoldeb ar draws y systemau oedolion ac ieuenctid, gyda ffocws i ddechrau ar sicrhau mwy o gydraddoldeb hil. | MoJ – Paul Kett<br>YJB – Frances Done | Ar y gweill | Y Bwrdd i adolygu'r gwaith a wneir |
| **Gweithio mewn partneriaeth** | | | | |
| 56 | Defnyddio arweinyddiaeth y Bwrdd i roi sylw i rwystrau sy'n atal integreiddio ar hyn o bryd, gan glirio'r ffordd ar gyfer rhaglenni TG trawsnewidiol. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Ebrill 2015 |
| 57 | Datblygu dull tryloyw ar gyfer holl gontractau caffael y CJS i'r dyfodol, i gynnig cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithredu. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Ebrill 2015 |
| 58 | lLunio meini prawf i asesu holl gontractau'r CJS yn eu herbyn gyda golwg ar nodi cyfleoedd cydgysylltu rhwng asiantaethau cyfiawnder troseddol, ac arbedion cost. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Ebrill 2015 |
| 59 | Cyfleu blaenoriaethau'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i'r partneriaethau lleol a rhoi cyfrwng iddynt i fwydo'n ôl i'r Bwrdd. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Medi 2013 |
| 60 | Gweithio gydag ymarferwyr ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau bod pob rhan o'r CJS yn glir ynghylch eu rôl gyda chyflawni'r cyd-ganlyniadau. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Ebrill 2014 |
| 61 | Nodi arferion da i'w rhannu rhwng ardaloedd lleol, a hybu ffyrdd newydd o rannu gwybodaeth ar-lein, fel POLKA sy'n cael ei chynnal gan y Coleg Plismona. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Rhagfyr 2013 |
| 62 | Ystyried dulliau gwahanol o weithio'n lleol-genedlaethol i oleuo sut fyddwn yn gweithio yn y dyfodol, gan sicrhau bod gwersi a ddysgir yn cael eu rhannu ar draws y system. Byddwn yn dechrau'r gwaith hwn gyda swyddfa Maer Llundain a phartneriaid cyfiawnder troseddol eraill, i gytuno ar ymateb y CJS i ddwyn oddi ar y person yn y brif-ddinas. | MoJ – Paul Kett | Ar y gweill | Rhagfyr 2013 |

| | Gweithredu | Aelod Arweiniol o'r Bwrdd | Dechrau | Gorffen |
|---|---|---|---|---|
| 63 | Ailwampio'r datganiadau effaith ar y gymuned fel bo'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddu, a'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol yn gallu eu defnyddio i wneud y llysoedd yn ymwybodol o droseddau sy'n broblem arbennig yn eu hardaloedd, a'u heffaith ar gymunedau lleol. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Ebrill 2014 |
| 64 | Gwella cyd-weithio ar draws y CJS drwy roi pecyn at ei gilydd o opsiynau gweithlu ar gyfer asiantaethau cyfiawnder troseddol yn cyflwyno dull mwy cyffredin o hyfforddiant, amcanion a rheoli talentau staff. | MoJ – Paul Kett | Medi 2013 | Rhagfyr 2014 |

information & publishing solutions

Cyhoeddwyd gan y TSO (Y Llyfrfa) ac ar gael oddi wrth:

**Ar-lein**
www.tsoshop.co.uk

**Drwy'r post, dros y ffôn, ffacs ac e-bost**
TSO
PO Box 29, Norwich NR3 1GN
Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol 0870 600 5522
Gellir archebu drwy ffonio'r Llinell Cost Isel Seneddol ar 0845 7023474
Archebion ffacs: 0870 600 5533
E-bost: customer.services@tso.co.uk
Ffôn testun: 0870 240 3701

**Siop Tai'r Senedd**
12 Bridge Street, Parliament Square,
Llundain SW1A 2JX
Archebion ffôn / ymholiadau cyffredinol: 020 7219 3890
Archebion ffacs: 020 7219 3866
E-bost: shop@parliament.uk
Ar y we: http://www.shop.parliament.uk

**TSO@Blackwell ac asiantau achrededig eraill**

ISBN 978-0-10-186582-1